

ECO'R WYDDFA

Rhif 169

MAI 1991

Pris 25c.

Ymdrech leol i helpu'r Cwrdiaid



Mynydd o ddillad a blancedi yng nghyntedd Ysgol Brynrefail yn barod ar gyfer y daith hir i Ogledd Irac.

Wythnos yn ôl bu'r darluniau erchyll o ffoaduriaid rhyfel yn dioddef oerfel a newyn ar y mynyddoedd rhwng Iraq a Thwrci yn destun braw a dychryn i drigolion y fro. Anodd oedd eistedd ym moethusrwydd cartrefi clyd a gwyllo trychineb cenedl yn datblygu fesul awr.

Felly braf yw cyhoeddi ymdrech arbennig gan blant a phobl ifanc y fro a lwyddodd, ymhen tri diwrnod, i gasglu mynydd o ddillad cynnes a blancedi i gynorthwyo'r ymdrech i leddfu rhywfaint ar anghenion dybryd y trueiniaid yn yr eira.

Prin dridiau fu rhwng i'r syniad gael ei hau ymysg y disgyblion yn Ysgol Brynrefail a phob ysgol gynradd yn ei dalgylch, cyn cludo cannoedd o fagiau plastig yn llawn o ddillad a blancedi i bencadlys yr apêl, yng Nghaerdydd, i gynorthwyo'r Cwrdiaid. Yn ei dro byddai'r rhoddion yn mynd i Lundain cyn ei hedfan allan

i'r Dwyrain Canol gan gwmni British Airways.

Ar achlysur fel hyn braf yw gallu troi at ddiwydiannwyr a gwyr busnes lleol fel y Grid Cenedlaethol yn Llanberis a chwmni John Edwards ym Mangor gan ofyn am gymorth i gludo'r 'mynydd' i Gaerdydd, a derbyn yn ddiymdroi, loriau a gyrrwyr heb ystyried y gost. Hebdwynt methiant fyddai'r ymdrech wedi bod felly mawr yw'r ddyled am eu haelioni eithriadol a'u parodrwydd i lenwi'r bwlch hwn.

Yn bennaf fodd bynnag, yw'r diolch i drigolion y fro fu mor hael eu hymateb i'r apêl ac yn fwy na hynny yn dystiolaeth fyw i holl ddisgyblion ysgolion y cylch o'r ffordd hyfryd mae pobl yn gallu ymateb i drychineb a thynnu i'r un cyfeiriad pan fo gwir angen. Gobeithio fod hon yn wers nad anghofiant.



Cafwyd cymaint o ymateb fel y bu'n rhaid troi llyfrgell yr Ysgol yn 'storfa dros dro.

Canrif Y Darans



Yn ystod mis Ebrill lansiodd llyfr y bu cryn aros amdano gan rai'n ymddiddori mewn pêl-droed, nid yn unig yn Llanberis, ond yn y fro gyfan a thu hwnt iddi. Eleni mae clwb pêl-droed Llanberis yn dathlu eu canmlwyddiant a bwriad Arwel Jones yr awdur, pan ddechreuodd ar y gwaith tua dwy flynedd yn ôl, oedd croniclo hanes 'canrif y pêldroediwr' yn ei bentref genedigol.

Fe lwyddodd i wneud hynny, ond nid hynny'n unig, mae yn y llyfr hefyd dalp o hanes y gymdeithas yn Nyffryn Peris rhwng 1890 a 1990.

Bu Arwel, sy'n bennaeth ysgol ac

sydd bellach yn byw ym Mhen-isarwaun, yn aelod gwerthfawr o'r Darans am ddeuddeg tymor. Daeth ei yrfa fel pêldroediwr i ben ar ddiwedd y chwedegau — degawd gyffrous a llewyrchus yn hanes y clwb.

Y mae'n llyfr manwl, llawn ffeithiau, wedi eu cyflwyno'n ddiddorol. Bydd lluniau timau'r gwahanol gyfnodau a phersonolaethau'r gêm yn sicrhau ennyn oriau o drafod. Mae'r cyfan yn ffrwyth dyddiau o waith ymchwil a llafur caled a fu, yn ôl yr awdur, 'yn bleser pur'.

Pencampwyr Jiwdo yr Urdd



Yn dilyn llwyddiannau pobl ifanc y fro yn y chwaraeon lleiafrifol (tudalen flaen y rhifyn diwethaf o'r Eco) dyma ni eto, y mis hwn yn cael cyfle i ymhyfrydu yng ngorchestion criw brwdfrydig yn y gamp o Jiwdo.

Gwnaeth Sir Eryri yn arbennig o dda yn y cystadlaethau Jiwdo oedd yn rhan o Wyl Chwaraeon yr Urdd

a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i bob un o'r fro a fu'n cystadlu — ond yn arbennig i'r tri a ddaeth yn eu holau yn bencampwyr yn eu hadrannau, sef Cenwyn Jones o Lanrug, a'r chwiorydd Anwen a Nia Salisbury o Fethel.

Lluniau: Cenwyn, Nia ac Anwen yn falch o arddangos eu medalau aur.



ECO'R WYDDFA

RHIF 169
MAI 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Fynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 30

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH,

MAI 21

os gwelwch yn dda.

Llafar

DINASYDDION EILRADD?

Mae pawb bellach wedi llenwi a dychwelyd ei ffurflen cyfrifiad. Tybed? Mae rhai unigolion wedi gwrthod oherwydd amryfal resymau — rhai ohonynt yn ymwneud a'r iaith Gymraeg. Ond nid yn gymaint gwestiwn yr iaith ar y ffurflen cyfrifiad oedd yn creu cynnwrf eleni, ond yn hytrach agwedd nifer o'r rhai oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r ffurflenni. Sawl tro y cafwyd cwynion nad oedd ffurflenni Cymraeg yn cael eu cynnig, a Chymry yn gorfod gofyn am ffurflen yn eu hiaith eu hunain. Nid yn unig hynny, ond yn aml clywyd cwynion am agwedd rhai dosbarthwyr tuag at y rhai oedd yn deisyfu ffurflenni Cymraeg, ac yn ôl pob sôn rhai ohonynt yn hawlio fod y ffurflen Saesneg yn haws i'w llenwi na'r un Gymraeg.

Cymaint haws fyddai rhoi ffurflen Gymraeg a Saesneg i bob tŷ, a gadael y dewis i'r person oedd angen ei llenwi.

Ac onid gwell hefyd (o gofio fod Ewrop '92 ar ein trothwy) fyddai dileu'r adran ynglŷn â darllen, sgwennu a siarad Cymraeg; a chynnwys adran yn holi am allu pob person ym Mhrydain i ddarllen, sgwennu a siarad unrhyw iaith. Trwy ddefnyddio'r dull hwnnw, byddai'r holl Gymry alltud yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad, ac ar yr un pryd, byddai gwybodaeth yn cael ei chasglu ynglŷn â gallu ieithyddol pobl Prydain mewn ieithoedd eraill hefyd. Ond na, mae'n amlwg fod y Cofrestrydd Cyffredinol am gyfyngu ei wybodaeth am ddefnydd o'r iaith Gymraeg i Gymru'n unig, tra'r un pryd yn caniatáu i'w weision cyflog drin yr iaith fel eilbeth, a'i siaradwyr fel dinasyddion eilradd.

Yn yr un modd, clywyd am achos heb fod ymhell o'r fro hon, o ferch am ail-drefnu dyddiad ei phrawf gyrru, a darganfod fod pob un sy'n dymuno sefyll prawf gyrru drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cofnodi yn Adran Drafnidiaeth Manceinion dan y pennawd 'anabl'.

Ac yn ystod y mis diwethaf bu'n rhaid i minnau ofyn i Heddlu Gogledd Cymru am ohebiaeth yn Gymraeg. Gorfu i mi wneud datganiad ynglŷn â marwolaeth y ddiweddar Mrs Mary Lloyd Williams. Gwneuthum y datganiad yn Gymraeg. Cefais ŵys Saesneg i ymddangos yn y cwest. Gofynnais am ŵys yn Gymraeg. Fe'i cefais gyda throad y post. Ond fe fu'n rhaid gofyn. Yr un oedd y drefn yn y cwest ei hun. Rhoddwyd y llw yn Saesneg i mi i'w darllen. Gofynnais am y fersiwn Gymraeg — ac fe'i cefais, ond unwaith eto, bu'n rhaid i mi ofyn.

Pam y dylai Cymry orfod gofyn am gael defnyddio'u hiaith yn eu gwlad eu hunain?

Onid y 'gofyn' bondigrybyll hwn sy'n dangos ein bod yn parhau yn ddinasyddion eilradd yng ngolwg yr awdurdodau Seisnig?

CYNGOR SIR GWYNEDD COUNTY COUNCIL

ADRAN ADDYSG

Yn eisiau ar gyfer Medi 1991

Ysgolion Cynradd

ATHRAWON DROS DRO

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn awyddus i ychwanegu at restr athrawon llanw cynradd y Sir, ac fe wahoddir ymholiadau gan unrhyw un sydd â phrofiad a/neu gymhwyster i ddysgu yn y sector gynradd, ac sydd a diddordeb i ddod yn ôl i ddysgu am gyfnodau byr.

Cyflog: £52.37 hyd at £88.27 y dydd yn ôl profiad a chymhwyster.

Er bod angen i'r rhai sy'n gweithio'n y sector gynradd fod yn drwyadl ddwyieithog, buasai'r Awdurdod yn barod i ystyried ceisiadau gan ddysgwyr da sy'n barod i dderbyn arweiniad i loywi eu Cymraeg.

Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael o'r Adain Bersonel, Swyddfa Addysg, Cyngor Sir Gwynedd, Caernarfon (Rhif ffôn: Caernarfon 679202).

Llythyrau

Llythyr Agored at holl Gynghorwyr ac Ymgeiswyr Etholiadol Cymru

Annwyl Gyfeillion,

Ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fe hoffwn eich gwahodd i un o ddwy Fforwm sydd i'w cynnal yn y dyfodol agos i drafod y galw cynyddol sydd yna am ateb i broblemau tai Cymru — yn arbennig yng nghyd-destun mewnlifiad trwm i gefn gwlad.

Bellach mae ymgyrch y Gymdeithas dros sicrhau DEDDF EIDDO yn mynd o nerth i nerth — eisoes cafwyd Rali Genedlaethol lwyddiannus iawn yn Aberystwyth ble sicrhawyd cefnogaeth cannoedd o unigolion a mudiadau led-led Cymru, yn ystod y dyddiau nesaf mae dau aelod yn debyg o wynebu barnwr yn Llys y Goron Yr Wyddgrug a chael cyfnod maith o garchar yn dilyn protest yn erbyn gwrthodiad David Hunt, Yr Ysgrifennydd Gwladol, i hyd yn oed gydnabod fod yna broblem. Gwelwn y Fforymau fel cyfle i adeiladu consensws cryf yng Nghymru dros Ddeddf Eiddo. Fel unigolion sydd, neu sydd yn awyddus i gynrychioli trigolion eich hardaloedd ar ba lefel bynnag, fe all eich cyfraniad chi i'r drafodaeth fod yn allweddol gan mai ymgyrch wedi ei seilio ar brofiadau lleol yw hon.

Cynhelir dwy Fforwm: **Sadwrn 4 Mai — Canolfan Bro Tegid, 32 Y Stryd Fawr, Y Bala, am 2 p.m.; Sadwrn 18 Mai — Y Llew Aur, Heol Awst, Caerfyrddin am 2 p.m.**

Gobeithio y gallwch wneud cyfraniad i'r ymgyrch bwysig hon. Os y gallwch, a fydddech cystal a gadael i ni wybod yn ein Prif Swyddfa yn Aberystwyth (cyfeiriad a rhif ffôn isod) i ni gael trefnu i yrru rhagor o fanylion i chi am Ddeddf Eiddo cyn y Fforymau.

Yn gywir,

ARWEL JONES

Ysgrifennydd Gweithgor Deddf Eiddo
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Pen Roc, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth, Dyfed.
(0970) 624501

Aelwyd yn Dathlu

Annwyl Olygydd,

Daeth i sylw rhai o garedigion yr Aelwyd yn Llangwm fod yr Aelwyd yn dathlu 50 mlynedd o fodolaeth ddi-dor yn ystod 1991.

'Rydym nawr fel aelodau presennol yr Aelwyd yn ceisio casglu at ei gilydd gymaint o hanesion, lluniau, a.y.b. am yr Aelwyd (a dweud y gwir byddai'r diddordeb mewn unrhyw luniau, a.y.b. a chysylltiadau â Llangwm).

Bwriedir cynnal aduniad gyda the, arddangosfa a chyngerdd gan gyn-aelodau yn y Neuadd ar 15 Mehefin 1991, ac yn sicrhau byddai croeso i bawb boed gyfrannwr neu wylwr dim ond iddynt gysylltu â mi ar 049 081 2943.

Yr eiddoch yn gywir,

ERYL ROBERTS,

Fron Isaf, Llangwm, Corwen, Clwyd.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Cwynion am y Cyfrifiad

Annwyl Olygydd,
Yn dilyn trafodaeth radio a theledu ganol Ebrill mae cwynion ynglŷn â'r Cyfrifiad wedi bod yn dylifo ataf o bob rhan o Gymru.

Y brif gŵyn oedd yr anhawster i gael ffurflen Gymraeg. Mewn un achos roedd y cyfrifwr yn gwadu bod y fath beth â ffurflen Gymraeg. Mewn sawl achos roedd y cyfrifwr yn dweud bod y ffurflenni Cymraeg yn brin iawn ond y gŵyn gyffredin oedd mai dim ond ffurflenni Saesneg oedd yn cael eu rhannu.

Rwy'n credu bod angen gwneud adros o stŵr yn ystod y mis neu ddau nesaf — yn fwyaf arbennig er mwyn sicrhau y bydd ffurflenni Cyfrifiad 2001 yn ddwyieithog drwy Gymru. Hoffwn ofyn i'ch darllenwyr na chawsant gynnig ffurflen Gymraeg anfon nodyn byr o dystiolaeth (neu alwad ffôn). A gaf awgrymu'r drefn isod: Cwyngion o Wynedd ataf fi i 'Cilcafán', Braichmelyn, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3RD (0248) 600423.

Yn gywir iawn,
DAFYDD ORWIG
(Cadeirydd Is-bwyllgor
Dwyieithrwydd
Cyngor Sir Gwynedd)

O.N.: Os ydych yn hoff o sgrifennu, beth am lythyr at y Cofrestrwydd Cyffredinol, St. Catherine's House, 10 Kingsway, Llundain WC2V 6JV yn pwyso am ffurflenni dwyieithog yng Nghymru y tro nesaf ac am gael y cwestiwn ynglŷn â'r Gymraeg tu allan i Gymru hefyd.

Y Gymraeg mewn Amaethyddiaeth

Annwyl Olygydd,
Oherwydd pryder ynglŷn â dirywiad yn y defnydd o eiriau cynhenid Cymraeg yn y byd amaethyddol, ysgogwyd nifer fechan ohonom i ffurfio gweithgor i edrych ar sefyllfa'r Gymraeg mewn cyrsiau amaethyddol trwy Gymru. Gohebwyd â Cholegau Amaethyddol led-led Cymru a chafwyd ymateb cymysg.

Carem glywed gan y rhai ohonoch sydd â diddordeb yn y pwnc yma, ac sydd yn teimlo nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Gymraeg yn eich Coleg Amaethyddol chi.

Cysylltwch â ni fel y gellir dwyn pwysau ar yr awdurdodau i dderbyn eu cyfrifoldeb tuag at ddatblygu addysg amaethyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn gywir,
RICHARD PARRY HUGHES
Penfras Uchaf, Llwyndyrus, Pwllheli.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

EISTEDDFOD FFAIR Y BYD Chicago, 1893

Annwyl Olygydd,

Tybed a fydddech garediced â chaniatau i mi apelio at eich darllenwyr, drwy gyfrwng eich colofnau, am unrhyw wybodaeth am yr achlysur uchod?

Mae Ffilmiau'r Nant yn bwriadu gwneud ffilm ddogfen am yr Eisteddfod, yn seiliedig ar gyfrol Hywel Teifi Edwards ar y pwnc, ac rwyf innau wrthi'n ceisio dod o hyd i unrhyw luniau a allai fod yn dal ar gael ohoni.

Tybio'r oeddwn i felly a oes ymhlith eich darllenwyr unrhyw rai sydd yn ddisgynyddion i Gymry a oedd yn byw yn America ar y pryd, neu Gymry a ymwelodd ag America ar gyfer yr Ŵyl?

Os oes, ys gwn i a gadwyd ym meddiant y teulu unrhyw luniau, ffotograffau, cardiau post, ac ati, o'r Eisteddfod ei hun — neu unrhyw gofnod gweledol arall o'r Ŵyl? Os oes gan unrhyw un ddeunydd felly, neu unrhyw wybodaeth berthnasol a allai fy nghyfeirio at luniau o'r Ŵyl, byddwn yn hynod ddiolchgar pe bydddech cystal â danfon gair ataf i'r cyfeiriad isod.

Diolch o galon.

Yn gywir iawn,
SIÂN EDWARDS
Fflat Un,
30 Oakfield Street,
Y Rhath,
Caerdydd CF2 3RE.

DRAENOG

Gyda'r llywodraeth bresennol â bwriadau i ad-drefnu holl adeiladaeth llywodraeth leol, clywais fod Cyngor Sir Gwynedd am wario, gwario, gwario cyn iddynt ddiplannu.

Maent eisoes wedi gwario rhai miloedd o bunnau i gwmni i chwilio am Brif Weithredwr newydd iddynt — talu i wneud joban nad oedd y cynghorwyr eu hunain yn rhy hoff o'i gwneud. Maent bellach wedi penodi Prif Weithredwr.

Cliriwyd y swyddfa ar ei gyfer a chafwyd tipyn o 'spring-clean'. Ond ydi hi'n wir fod yr adnewyddu hwnnw ar swyddfa wedi costio £7,000? Dim ond gofyn rydw i. Ella mai cam-ddeall y ffigurau a wnaeth fy nghefnder pigog sy'n byw ar

15. ARDAL YR WYDDFA

Dafydd Whiteside Thomas



Cyfarwyddiadau

Gellir cychwyn y daith o unrhyw un o'r cyfeiriadau canlynol:

1. O gyfeiriad Beddgelert.
Ar yr A4085 drwy Ryd-ddu nes cyrraedd Betws Garmon. Dilyn rhifau 1-32.


2. O gyfeiriad Caernarfon.
Ar yr A4085 drwy Gaeathro a'r Waun-fawr i Fetws Garmon. Dilyn rhifau 1-32.

3. O gyfeiriad Betws-y-coed.
Dros Ffŵch Llanberis ar yr A4086. Ymunwch â'r daith ym mhentref Nant Peris (Rhif 11). Bydd eich taith chi yn diweddgu gyda rhifau 1-10.

4. O'r gogledd.
(a) O Fôn ac o Fangor - i fyny Nant-y-garth ar y B4547.
(b) O Bethesda a Llanddŷgai - ar y B4409 a B4366.

Mae'r ddwy ffordd hon yn cyfarfod ar gogleddaf Ty-mawr. Dilynwch y ffordd am Ddeiniolen nes cyrraedd y groesffordd nesaf (Rhif 21). Trowch i'r dde. Bydd eich taith chi yn diweddgu gyda rhifau 1-20.

Ceiswyd osgoi'r ffordd prysuraf, gan ddilyn y lonydd cenn Gofalech am ddigon o betrol - mae angen defnyddio'r ger ael yn eithaf am!



Llyfrau
Hen Aifon - W. J. Gruffydd
O Larn i Law - T. Rowland Hughes
Rhamant Bryn - William Davies
(Gwilym Peris)
Rhagarweiniad Hanes Methodistiaeth Arfon, Cyfrolau Dosbarth Caernarfon a Dosbarth Dinorwig - William Hobley.

Angenrheidiâu
Car - heb fod yn rhy lydan!
Esgidau cryf - mae angen dod allan o'r car weithiau.

Dyma'r ddiwddaraf yng nghyfes 'Teithiau Llenyddol' a gyhoeddir gan Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

Sicrwydd Gwaith i Bobol Leol

Pan gyfarfu Pwyllgor Antur Padarn yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis, ar nos Fercher, 3 Ebrill, rhoddwyd cryn amser i drafod penderfyniad Cwmni Euro-DPC i sefydlu eu pencadlys Ewropeaidd yng Nglyn Rhonwy gan greu swyddi i 280 o bobl. Wrth groesawu y cyhoeddiad hanesyddol hwn penderfynwyd gofyn i Gyngor Dosbarth Arfon sut y maent yn bwriadu sicrhau y bydd y Cwmni yma yn cadw at eu haddewid mai i bobl leol y bydd y mwayfrif o'r swyddi hyn yn mynd. 'Roedd y pwyllgor yn awyddus i wybod os oedd cytundeb wedi ei wneud rhwng y Cyngor a'r Cwmni mewn perthynas â hyn, ac os oedd, beth oedd cynnwys y cytundeb hwnnw. Teimlwyd ei bod yn bwysig bod y mater hwn yn cael ei gytuno arno mor fuan ag sydd bosibl fel ag i ddileu unrhyw ofnau yn lleol mai nid pobl yr ardal fydd yn cael y cyfle cyntaf am y swyddi hyn. Hefyd

bwys y castell.

Sgwn i sawl un o'r 70 o weithwyr priffyrdd a gollodd eu gwaith a fyddai wedi medru cael eu cadw mewn swydd am yr holl filoedd a wariwyd ar benodi a 'gwneud yn gartrefol' ein Prif Weithredwr newydd?

penderfynwyd galw ar Awdurdod Addysg Cyngor Sir Gwynedd i fwrw ati yn ddihael i lunio rhaglen waith ar gyfer addysgu a hyfforddi pobl ifanc lleol ar gyfer llenwi y swyddi fydd yn cael eu cynnig gan y Cwmni yma. Penderfynwyd gwneud apêl o'r fath fel canlyniad i gyhoeddiad y Cwmni eu bod yn bwriadu cyd-weithio yn agos iawn â'r Awdurdod Addysg lleol, a'r Coleg Technegol ym Mangor.

Hefyd yn yr un cyfarfod penderfynwyd symud ymlaen i geisio grant ariannol o dan Gynllun Cymorth Trefol ar gyfer penodi Swyddog Datblygu i'r Antur. Gan bod yr ymateb i'r Holiadur wedi bod mor dda teimlwyd bod yr amser yn addas yn awr i geisio cyflogi Swyddog Datblygu fel y bydd swyddog o'r fath mewn swydd pan fydd canlyniadau yr arolwg yn cael eu cyhoeddi o fewn y misoedd nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, 8 Mai, am 7 o'r gloch yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis. Yn y cyfarfod hwn bydd aelod o Bwyllgor Antur Nantlle yn bresennol ar gyfer adrodd sut y bu hwynt yn llwyddiannus yn eu cais am Swyddog Datblygu. Edrychwn ymlaen at weld gymaint ohonoch ag sydd yn bosibl yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Bistro
43-45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 871278



**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Newyddion o Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen

Yn ystod y flwyddyn ariannol 1990-91 fe roddodd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen £3195 i fudiadau gwirfoddol:

£200 i bob Neuadd/Canolfan yn y plwyf (£400 i Fethel);

£100 i bob eisteddfod a gynhaliwyd yn y plwyf;

£200 i bob Ysgol Feithrin o fewn ffiniau'r plwyf;

£200 i Eco'r Wyddfa.

Cyfranwyd hefyd tuag at fudiadau fel Radio Ysbyty Gwynedd, Hospis Gwynedd, Cyfeillion y Samariaid, Clwb Gateway Segontium a Chanolfan Nant Gwrtheyrn. Rhoddwyd £75 hefyd tuag at weithgarwch Antur Padarn.

Gan fod plwyf Llanddeiniolen yn blwyf mor fawr (un o'r rhai mwyaf yng Nghymru), ac yn cynnwys saith o bentrefi, yn naturiol fe geir mwy o broblemau a cheisiadau i'w trafod ac i'w datrys nag a geir mewn plwyfi sy'n cynnwys ond un neu ddau o bentrefi.

Mae Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn ceisio rhannu'n deg rhwng galwadau ac anghenion y gwahanol bentrefi.

Dyma, yn fras, sut y gwariwyd arian ar bob ardal y llynedd. Nid yw'r symiau hyn yn cynnwys y costau gweinyddol cyffredinol:

Bethel — £1,385: rhoddwyd £200 ychwanegol at gostau'r Neuadd Goffa am eleni yn unig;

Penisarwaun — £550: mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi mwy o gynorthwy i'r pentref pan godir y Neuadd newydd o fewn yr Ysgol;

Brynrefail — £1,154: fe gostiodd £354 i dorri'r tyfiant ar lwybrau ardal Brynrefail yn unig;

Clwtybont/Deiniolen — £1,250: roedd y gost o £300 am dorri a thacluso llwybrau'r ardal;

Rhiwlas — £650;

Dinorwig/Fachwen — £710: fe dalwyd £385 am drin llwybrau yr ardal.

Bydd Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor yn Ystafell y Band, Deiniolen, 14 Mai, 1991.

Peryglon y Llwybr Main



Y mis diwethaf adroddwyd fod Cyngor Sir Gwynedd yn argymhell newid cwrs y llwybr cyhoeddus a elwir 'Y Llwybr Main'. Mae'r llun uchod yn dangos pam fod hynny bellach yn angenrheidiol. Ar rannau helaeth o'r llwybr nid oes wal i warchod y cerddwr rhag syrthio neu lithro'i lawr yr hen domenni chwarel.

Blerwch bro yn cael ei glirio



Ddau fis yn ôl yn yr 'Eco' ymddangosodd y llun ar y gongl chwith uchod, yn dangos y llanastr ar safle'r hen 'Church Hall', Llanrug. Bellach, mae'r gwaith o glirio'r sbwriel wedi cychwyn — er mawr ryddhad i drigolion yr ardal hon o Lanrug. Mae cael sylw'n y wasg yn cael effaith!

Prinder Athrawon

Mae prinder athrawon cynradd dros dro mewn rhai ardaloedd yn peri gofid yng Ngwynedd, ac mae'r Cyngor Sir yn awyddus i benodi athrawon llanw dros dro erbyn mis Medi nesaf.

Yn ôl llefarydd ar ran yr Adran Addysg, mae'r gofynion statudol i gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol a throsglwyddo rheolaeth i ysgolion yn golygu fod galw cynyddol am athrawon dros dro i alluogi ysgolion cynradd ryddhau staff i fynychu cyrsiau hyfforddiant.

Mae'r Adran Addysg yn gwahodd ymholiadau gan unrhyw un sydd â phrofiad a/neu gymhwyster i ddysgu yn y sector gynradd, ac sydd a diddordeb i ddod yn ôl i ddysgu am gyfnodau byr. Telir cyflog yn unol â'r Raddfa Sylfaenol Genedlaethol, yn amrywio o £52.37 hyd at £88.27 y

dydd, yn ôl profiad a chymhwyster.

Er bod angen i athrawon sy'n gweithio yn y sector gynradd fod yn drwyadl ddwyieithog, buasai'r Adran yn barod i ystyried ceisiadau oddi wrth ddysgwyr da sy'n barod i dderbyn arweiniad i loywi eu Cymraeg.

Dylai unrhyw berson sydd â diddordeb gysylltu â'r Adain Bersonel, Swyddfa Addysg, Cyngor Sir Gwynedd, Caernarfon, neu ffonio Caernarfon 679204 am wybodaeth bellach.

DRAENOG



Gyda dyddiad yr etholiadau lleol ar ddiwrnod cyhoeddi yr Eco, gwerth tynn sylw at awgrym a drafodwyd yn y wasg genedlaethol rai wythnosau'n ôl. Sôn yr oedd y sgwennwr am y diffyg diddordeb mewn llywodraeth leol, ac yn awgrymu y dylid gorfodi'r etholwyr i bleidleisio hyd yn oed os oedd dim ond un ymgeisydd am un sedd. Mewn achos felly, byddai gan etholwyr hawl i bleidleisio 'bodlon' neu 'anfodlon' am yr unig ymgeisydd.


Diddorol fyddai gwybod ymateb trigolion y fro hon i'r degau o gynghorwyr cymuned a bwrdeistrefol a ddaliodd eu gafael yn eu seddi yn ddiwrthwynebiad!

'Un o'r Teulu'

Dau gwpwl, pâr o slipars, camddealldwriaethau, cymhlethodau a lot o sbort a dyna i chi 'Un o'r Teulu', addasiad John Ogwen o gomedi Alan Ayckbourn.

Mae John Ogwen yn ei chyfri yn un o'r dramâu digrifaf â welodd erioed.

Bydd y gomedi yn cael ei pherfformio yn Theatr Gwynedd, Bangor yn unig, dros gyfnod o dair wythnos. Gobeithio y cewch chi gyfle i'w gweld. Mae telerau arbennig i bartion, yn ogystal mae dau docyn am bris un ar 21 a 28 o Fai. Cysylltwch â Swyddfa Docynnau'r Theatr, Bangor (0248) 351708 i archebu'n fuan.



Cwmni
THEATR
Gwynedd

Un o'r Teulu

Addasiad John Ogwen o ddrama Alan Ayckbourn
Cyfarwyddwr: Tony Llewelyn Cynllunydd: Chris Green

gyda
Valmai Jones · Llion Williams · Nia Williams · Eilian Wyn

Tocynnau: £5.50, £4.50, £3.50
nos Fercher - nos Sadwrn 15-18 Mai
nos Fawrth - nos Sadwrn 21-25 Mai
nos Fawrth - nos Sadwrn 28 Mai - 1 Mehefin 7.30 p.m.
21 a 28 Mai dau docyn am bris un

Swyddfa Docynnau:
Bangor (0248) 351708

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



PARATOI AT ARHOLIADAU ALLANOL HAF '91

Ers dychwelyd i'r ysgol wedi gwyliu'r Pasg mae yma brysurdeb anhygoel wedi bod yn mynd ymlaen yn y gwahanol adrannau o fewn yr ysgol. Mae disgyblion 6² a'r pumed yn enwedig wedi bod yn cwblhau a chyflwyno pob math o waith ar gyfer eu arholiadau terfynol yn y gwahanol bynciau — o waith cwrs i waith ymarferol a gwaith llafar.

Erbyn y cyhoeddir rhifyn nesaf yr *Eco* bydd yr arholiadau allanol wedi cychwyn. Dymunwn felly y gorau i'r disgyblion ym mlwyddyn 5 a 6² yn ystod y cyfnod yma.

ADRAN GERDD

Ebrill 8: Prawn dydd Llun — Jazz Band o'r Almaen (Bochun) wedi dod i'r ysgol i roi cyngerdd i dosbarthiadau 1 a 2 ac i'r plant sy'n cael gwersi offerynnol. Mr Dennis Williams a fu'n trefnu. Yr Almaenwyr yn aros yn ardal Bangor. Prawn ardderchog!

Ebrill 12: 7 p.m. — Cyngerdd gan aelodau Cerddorfa a Band Pres Gwynedd. 35 o blant Brynrefail yn cymryd rhan.

Ebrill 17-19: Tair o enethod yng Nglynllifon ar gwrs Band Ieuencid; Luned Jones a Siân Elen Thomas o ddosbarth 1, a Louise Jones o ddosbarth 2.

Y CYFNEWID Â FFRAINC

Dychwelodd y pedwar ohonom o Ysgol Brynrefail, ynghyd â phump ar hugain o fyfyrwyr eraill o Wynedd, ar Ebrill 14 wedi treulio mis yn Ffrainc. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ond yn flinedig iawn ac yn falch o fod adref.

Bu'r myfyrwyr o Gymru yn mynychu'r ysgol 'Lyceé Jean Mallet', ger Versailles ac roeddem i gyd yn aros mewn cartrefi yn yr ardal. Yr argraffiadau cyntaf a gawsom oedd fod yr ysgol yn hynod o fodern ac fod nifer fawr o fyfyrwyr yn ei mynychu, oddeutu dwy fil a dweud y gwir. Roedd gan yr ysgol lawer o adnoddau megis canolfan wybodaeth a thechnoleg, cyfrifiaduron ag offer lloeren. Tair mlynedd sydd er pan godwyd yr adeilad ac mae myfyrwyr y pumed a'r chweched dosbarth yn ei mynychu.

Er fod pawb yn hoff iawn o'r ysgol roeddem i gyd yn teimlo nad oedd yr awyrgylch cystal a'n hysgolion gartref. Gan fod nifer mor uchel o fyfyrwyr nid oedd awyrgylch mor gyfeillgar â sydd ym Mrynrefail. Cawsom yr argraff hefyd fod myfyrwyr Ffrainc yn gweithio'n eithaf caled; roedd yr oriau ysgol yn hir iawn o hanner awr wedi wyth y bore hyd at hanner awr wedi pump y prynhawn. Nid oedd gwersi ar brynawn Mercher ond yn anffodus roedd gwersi ar fore Sadwrn tan hanner dydd felly roedd y penwythnos yn fyr iawn!

Yn ogystal â mynychu'r gwersi yn yr ysgol cafodd bob un ohonom oedd ar y cyfnewid brofiad gwaith mewn busnesau lleol. Roedd yn gyfle gwyb i wella ein Ffrangeg ac i ddysgu ychydig am awyrgylch gweithio y Ffrancwyr. Cafodd y pedwar ohonom o Frynrefail ein lleoli mewn mannau gwahanol, sef siop degannau, swyddfa gyfrifon cwmni

Renault, amgueddfa, ac ysgol gynradd. Credaf fod pawb yn teimlo fod y profiad hwn wedi bod yn fuddiol.

Ond, nid gweithio yn unig a wnaethom yn ystod y cyfnewid! Bûm yn ffodus iawn o gael ymweld â Bayeux a'r tapestri enwog yno. Trefnwyd ymweliad hefyd i Gwerny i weld gerddi a chartref yr arlunydd enwog Claude Monet. Roeddem yn digwydd bod yno ar ddiwrnod braf iawn pan roedd y blodau ar eu gorau.

Am ein bod o fewn hanner awr o ganol Paris, cafodd bob un ohonom gyfle i fynd o amgylch y ddinas gyda'n teuluoedd ar benwythnosau.

Yn gyffredinol cawsom amser da iawn ond fod rhai cwynion. Roedd yn ymddangos nad oedd y Ffrancwyr yn mynd allan yn aml gyda'r nos — mae'n debyg oherwydd oriau hir yr ysgol. Gan ein bod yn aros mewn ardal wledig roedd hi'n anodd mynd o le i le gan nad oedd gwasanaeth bwsiau lleol.

Ond wedi dweud hyn roedd y profiad yn fuddiol a bythgofiadwy a bydd cysylltiadau gyda'r teuluoedd yn parhau yn y dyfodol.

FFILMIO

Brynhawn dydd Llun, 15 Ebrill, ymwelodd cynrychiolwyr o Ffilmiau Eryri â'r ysgol yn awyddus i gyflwyno disgyblion blwyddyn 1, 2 a 3 — ond cawsant y pleser o weld blwyddyn 4 hefyd! Angen disgyblion i actio mewn addasiad ffilm o'r nofel 'Traed Mewn Cyffion' gan Kate Roberts oeddynt a'u nod pennaf oedd dewis un ferch ac un bachgen i gymryd rhan dau o'r prif rannau. Gan fod yr actorion hyn wedi cael eu castio, y dasg oedd darganfod plant a phobl ifanc a ymdebygai iddynt. Cawsom gyfle i ddarllen rhannau o'r sgript a bu'n rhaid i ni sefyll mewn cylch er mwyn i Mr Norman Williams a Mr David Lyn, y cyfarwyddwr, gael golwg fanwl arnom!

Yn dilyn hyn cafodd pump ohonom — Siwan Humphreys, Llŷr Siôn, Martin Thomas, Emyr Gibson a minnau wahoddiad i Ganolfan Ffilmiau Eryri yn y Felinelli am wrandawriad pellach pryd y buom yn darllen sgript wahanol gyda chymeriadau gwahanol. Y bore hwnnw roedd y lle'n llawn o ddisgyblion ysgol, pob un yn awyddus iawn.

Yn ychwanegol at hyn, mae hanner cant o ddisgyblion yr ysgol yn cael eu hystyried fel 'ychwanegiadau'. Mae'n edrych fel y bydd 'Traed Mewn Cyffion' yn fwy poblogaidd na'r 'Turtles'!

NIA GRIFFITH, 4E

SÊR Y RADIO

Fore dydd Mawrth, Ebrill y trydydd ar hugain, cafodd deg o ddisgyblion y drydedd flwyddyn ei dewis i fod ar y radio.

I beth meddech chi? Wel, i drafod y pwnc 'llygredd', y broblem sydd yn poeni llawer un ohonom ni.

Roedd y tapio yn mynd ymlaen mewn un o ystafelloedd yr ysgol. Yr oedd Mrs Rhian James yn holi'r plant ac yn cael gwybod eu barn ar lygredd a sut i ddatrys y broblem enfawr hon.

Dechreuodd y tapio am ddeg roedd y plant yn brysur yn siarad ac ateb cwestiynnau tan hanner awr wedi unarddeg.

Bydd y plant yn edrych ymlaen at glywed eu lleisiau ar y radio ar y rhaglen 'Trafod' ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.

SIGNED WYN JONES, 3O

PORTREAD

(Gwaith Cartref)

Mae llawer o bobl ddiddorol yn ein hardal, ond mae un yn sefyll allan pan 'rydych yn meddwl yn gyffredinol. Bu am gyfnod hir, hyd at 1990, yn athrawes Ysgol Sul yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun ac hefyd yn helpu ers cyn i mi ddechrau'r ysgol gynradd yn y gegin. Mae ganddi record o beidio bod yn sâl nac i ffwrdd o'i gwaith am 15 mlynedd o leiaf. Ydi wir, mae 'Anti Mary' (Mary Davies) yn ddynes eithriadol o bwysig i Benisarwaun ac yn ddynes sydd bron ar ei phensiwn, ond er hynny mae hi mor heini â dynes yn ei thriddegau. Bu hefyd yn warden y ficer am 15 o flynyddoedd hyd at 1987 ac mae hi yn mynychu yr eglwys ac yn ei hagog bob dydd Sul yn ffyddlon. Rhai o'i hoff raglenni yw y dartiau a 'Bullseye'. Un peth sydd ddim yn cael ei wneud gan Anti Mary yw gyrru car. Rwy'n siwr y gallai wneud popeth arall gan gynnwys plymio rwy'n siwr!

Pan oeddwn yn cychwyn yr ysgol fach roeddwn yn adnabod Anti Mary drwy'r Ysgol Sul ac roedd hi yn gefn mawr i mi trwy y blynyddoedd y bu mi yno. Dylai Anti Mary gael medal am yr holl waith di-gwyno y gwnaeth hi dros y blynyddoedd y bu hi'n byw ym Mhenisarwaun.

HUW TEGID 11

RALI '91

Rali!? Ceir!? Wel . . . dim y rhai cyflym beth bynnag, a mi fydd ffyrdd y fro yn berffaith saff! Ond, ddiwedd mis Mai bydd ceir, faniau, bysiau, tractors a siariots . . . ia, siariots . . . yn heidio i'r fro ar gyfer Rali Flynyddol y Ffermwyr Ieuainc.

Ni fu'r Rali yn yr ardal ers ei chynnal yng Ngholeg Glynllifon yn ôl yn 1985. Ers hynny bu'n crwydro hwnt ac yma ar hyd a lled yr hen Sir Gaernarfon gyda chlybiau o Ben Llŷn i Ddyffryn Conwy yn rhoi cartref iddi yn eu tro. Eleni croesewir y Rali i'r ardal gan glybiau Dyffryn Nantlle (Pen-y-groes) a Chaernarfon (Bethel) sydd wedi dod at ei gilydd i drefnu uchafbwynt blynyddol calendr y Ffermwyr Ieuainc. Mae aelodau'r ddau glwb wrthi'n ddiwyd yn gwneud y paratodau ar fferm Lleuar Bach, Pontllyfni, lle cynhelir y Rali ar ddydd Sadwrn, 25 Mai.

Felly beth yn union ydi Rali Ffermwyr Ieuainc? Mae'n siwr na'r disgrifiad gorau yw Eisteddfod Amaethyddol! Mae yno gystadlu, llwyfan (ar gyfer ambell gystadleuaeth), beirniaid, a'r dewis mwyaf amrywiol posib o gystadlaethau.

Daw aelodau a thimau o glybiau o bob rhan o'r sir i gystadlu ar gystadlaethau megis coginio, crefft, cynllunio crysau-T, cneifio, arddangosfeydd neu yrru tractor a threlar. Bydd llawer o hwyl i'w gael wrth wyllo'r aelodau ieuengaf yn gwisgo'r aelodau hyn fel clowniau, neu weld eraill yn ymladd gobennydd dros bwl o ddŵr.

Yn ystod y pwn cynhelir seremoni coroni Brenhines Amaeth y Sir gyda'r enillydd wedi ei dewis ar

sail ei gwaith i'r mudiad dros y blynyddoedd. Rhai o'r cystadlaethau eraill a gynhelir yw tynnu rhaff, dawnio gwerin, gyrru beic fferm, a llawer mwy. Bydd y pwn yn diweddu gyda gorymdaith o siariots y sir ac yna ras i ddewis y cyflymaf.

Gyda'r nos cynhelir dawnys ar fferm y Rali ac yna ar y nos Sul (26 Mai) cynhelir Cymanfa Ganu i gloi'r penwythnos yng Nghapel Glanrhyd, Dinas, Llanwnda, dan arweiniad Mrs Beti Williams, Pontllyfni, gan ddechrau am 8 o'r gloch.

Felly beth am ddod draw atom i fferm Lleuar Bach ar 25 Mai i ganol bwrllwm gweithgareddau Ffermwyr Ieuainc Eryri; cewch fod yn sicr o ddiwrnod hwyliog ac amrywiol iawn yno.

CRIB COCH

**Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772**

**TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN**

**Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser**

FIDEO FIDEO FIDEO

**Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol**

**JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209**

**Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO**

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Apêl: Os ydych yn ysgrifennu cymdeithas neu yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd yn eich pentref beth am sgwennu'r hanes i'r *Eco*?

Mae llawer un fuasai'n hoffi clywed beth sy'n digwydd yn yr ardal, yn enwedig felly pobl sydd wedi symud oddi yma i fyw, ond sy'n dal i dderbyn yr *Eco*.

Rhowch bwt ar bapur a'i daro yn y Becws, os gwelwch yn dda. Buasai'n ddifyr iawn cael darllen yr hanesion.—Gol.

Enillwyr Clwb Cant Ysgol Dolbadarn: 1, Sara Pepper, Taliesin, 1 Preswylfa, Llanberis (022); 2, Mrs Helen Jones, Ffordd Capel Coch, Llanberis (167); 3, Mrs Yvonne Roberts, Stryd Bethesda, Llanberis (140).

Llongyfarchiadau i Geraint Jones, mab Mr a Mrs Gwilym Idwal Jones, Llanfaethlu, ar ei ddychafiad yn brif weinyddwr yr orsaf Teleffon Brydeinig. Mae yn enedigol o Glasfryn, Llanberis.

Diolch:

Dymuna teulu y diweddar Lewis W. Roberts, Tŷ Newydd, Clegir, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth; hefyd am y rhoddion o £365 sydd wedi cael eu trosglwyddo i Uned Gofal Arbennig, Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Mrs Pritchard a'r teulu ddiolch am yr holl gyfraniadau a dderbyniwyd gan deulu a chyfeillion er cof am Hugh Peris Pritchard. Casglwyd £100 a rhoddwyd yr arian tuag at Gronfa Organ Capel Coch, yn ôl dymuniad Mr Pritchard.

Dymuna Colin a Val, Glan-y-Don, Stryd Fawr, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau oll am y lluo o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach Sara.

Dymuna Nigel a Linda, Carlinig, Ffordd Tŷ Du, ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthynt ar achlysur genedigaeth eu mab, Ieuan Wyn. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Llanberis ac Ysbyty Dewi Sant am eu gofal. Yn arbennig diolch i Dr Dapha, Ysbyty Dewi Sant a Dr Parry, Llanberis.

Dymuna Dafydd Parry a'r teulu, Noddfa, 14 Stryd Fawr, ddiolch yn ddifffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, Mr John Richard Parry, Caernarfon.

Lwc dda i deulu Terence a Denise Griffith, mab Hugh Bach a Margaret, ar enedigaeth merch fach, chwaer i Lesley.

Eisteddfod Plwyf Llanberis

Hoffai pwyllgor yr Eisteddfod ddatgan eu diolchgarwch i bawb am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i weithio er budd yr achlysur. Llwyddiant mawr fu'r canlyniad.


Bydd y pwyllgor yn ail afael â'r gweithgareddau unwaith eto i gynnal eisteddfod y flwyddyn nesaf. Bydd y cyfarfod blynyddol yn agored i bawb ac fe'i cynhelir nos Lun, 13 Mai, 1991, am 6.45 o'r gloch yn Angorfa, Stryd y Ffynnon. Croeso mawr i bawb â diddordeb.

Llwyddiannus iawn fu hanes yr eisteddfod. Cynhaliwyd hi ar ddwy noson braf o wanwyn, pryd y gwelwyd cystadlu brwd rhwng plant yr Ysgol Feithrin hyd at yr oedolion, ym mhresenoldeb y beirniaid y Prifardd Selwyn Griffith a Mr Robin Jones. Cynnes a chartrefol oedd awyrgylch yr achlysur gyda thalentau yr ardal yn eu bri. Edrychwn ymlaen am eisteddfod y flwyddyn nesaf.

CANLYNIADAU'R EISTEDDFOD

Nos Iau, 4 Ebrill

Canu dan 4: Ysgol Feithrin pnawn: 1, Carys; 2, Gruffydd; 3, Daniel. **Ysgol Feithrin bore:** 1, Elin; 2, Nia; 3, Llifon.



Carys — aelod o Ysgol Feithrin y pnawn — cyntaf ar ganu.



Enillwyr ifanc yr Eisteddfod.

Adrodd dan 4: Ysgol Feithrin pnawn: 1, Rhiannon; 2, Elin; 3, Daniel a Gruffydd. **Ysgol Feithrin bore:** 1, Nia ac Elin. **Canu dan 5 oed:** 1, Louise; 2, Iwan; 3, Nia. **Adrodd dan 5 oed:** 1, Iwan; 2, Louise; 3, Jonathan. **Canu 6 oed:** 1, Sioned; 2, Sera; 3, Dafydd. **Adrodd 6 oed:** 1, Bethan; 2, Sera; 3, Caryl. **Canu dan 8 oed:** 1, Jack; 2, Rebecca; 3, Nevill, Leonna, Clifford. **Adrodd dan 8 oed:** 1, Jack; 2, Cefyn,



Melisa a Janet, enillwyr ar ganu ac adrodd i Safon 3.

Beccy; 3, Clifford. **Cân Actol dan 12 oed:** 1, Parti Genod; 2, Parti Mochyn Du, Parti Swistir. **Canu 8-10 oed Safon 1:** Katie, Mark, Sarah, Gwawr, Leanne (rhannu'r wobrl). **Safon 2:** 1, Mari; 2, Ffion; 3, Gemma. **Adrodd 8-10 oed Safon 2:** 1, Mari; 2, Lucy; 3, Gemma. **Canu 10-12 oed**



Clara — enillodd ar yr emyn i rai dros 50 oed.




Trystan a Sarah — enillwyr Ysgol Brynrefail.



Elin — aelod o Ysgol Feithrin y bore, cyntaf ar ganu ac adrodd.

Safon 3: 1, Melisa; 2, Janet a Claire. **Canu 10-12 Safon 4:** 1, Sharon; 2, Kahan Tasha. **Adrodd 10-12 oed Safon 3:** 1, Janet. **Adrodd 10-12 oed Safon 4:** 1, Sharon; 2, Tasha. **Deuawd dan 12 oed:** 1, Gemma a Lucy; 2, Janet a Melissa; 3, Sharon a Mari, Karen a Sarah. **Cân Werin dan 12 oed:** 1, Mari; 2, Claire; 3, Gemma.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampyl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



Dilys ac Ann, enillwyr y ddeuawd dros 25 oed.

Nos Wener, 5 Ebrill

Parti Canu dan 12 oed (Cystadleuaeth Coffa Mrs Janet Thomas): 1, Parti Edryd. Parti Adrodd dan 12 oed: 1, Parti Kelly. Adrodd 12-15 oed: 1, Sarah; 2, Elinor, Nia. Cân Werin 12-15 oed: 1, Elinor; 2, Meinir, Sarah. Parti Adrodd 12-15 oed: 1, Parti Meinir. Deuawd 12-15 oed: 1, Meinir ac Elinor. Canu 15-19 oed: 1, Trystan. Cân Werin 15-19 oed: 1, Trystan. Parti Canu



Iwan a Rhiannon — brawd a chwaer llwyddiannus.

12-15 oed: 2, Parti Elinor; Parti Adrodd dros 19: 1, Parti'r Wyddfa. Canu Emyr dros 50: 1, Clara; 2, Ted; 3, Carys; Deuawd dros 25: 1, Ann a Dilys. Parti/Côr: Rhannu'r wobwr rhwng Lleisiau Lliwedd a Chôr Meibion Dyffryn Peris. Cystadleuaeth Unrhyw Offeryn Cerdd (Cystadleuaeth coffa Miss C. Williams, Summer Hill): 1, Elinor; 2, Sarah.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Marwolaeth: Yn dawel yng Nghartref Sant Tysilio, Llanfairpwll, dydd Sadwrn, 30 Mawrth, bu farw Mrs Elizabeth Evans, Gwylfa, yn 90 oed.

Cyn ymddeol bu Mrs Evans yn athrawes yn Ysgol Troed yr Allt ac Ysgol Frondeg, Pwllheli a bu'n athrawes ac yn ysgrifenyddes yng Nghapel y Tabernacl am flynyddoedd maith. Bu'r angladd dydd lau, 4 Ebrill yng Nghapel y Tabernacl ac yna ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams a'r organyddes oedd Miss Jean P. Jones, Deiniolen. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'r teulu yn eu profedigaeth.

Cymanfa'r Annibynwyr: Dydd Sul, 21 Ebrill, cynhaliwyd Cymanfa Ganu Dosbarth Cwm-y-Glo yng Nghapel Bosra, Penisarwaun. Y llywydd yng ngwasanaeth y plant yn y prynhawn oedd Mr Evie Jones a'r organyddes oedd Mrs Ann Evans. Thema eleni oedd dathlu dauganmlwyddiant marw y Per Ganiedydd, William Williams, Pantycelyn. Cymerwyd y rhan agoriadol gan blant Ysgol Sul Bosra, yna plant Ysgol Sul Nant Padarn ac Ebeneser yn cael eu dilyn gan ferched eglwys Jerusalem. Diweddwyd gyda emyn gan feibion Jerusalem. Diolchodd y llywydd i Mrs Glenys Griffiths, arweinydd y gân, i'r plant ac i'w hathrawon am waith canmoladwy.

Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd y rhan agoriadol gan Mr Robert Lloyd. Yr arweinydd oedd Mrs Glenys Griffiths a'r organyddes oedd Mrs Ann Evans. Cafwyd eitemau gan Barti Clychau'r Grug dan arweiniad Mrs Griffiths. Diolchodd Mr Lloyd i bawb am eu cyfraniad i lwyddiant y Gymanfa.

Clwb Pobl y Cwm: Ein gŵr gwadd ar 21 Mawrth oedd Mr H. Richard Jones, Llanberis, a chroesawyd ef yn gynnes gan Mr Llew Hughes. Mae'n amlwg fod Mr Jones yn darllen llawer, ac yn ddoeth iawn, yn rhoi pethau ar gof a chadw, ac o'r herwydd mae ganddo stôr o hanesion a chwestiynau diddorol i'w gofyn. Yn ogystal cafwyd sgets fach ddigrif ar gyfer dwy ferch, i'w darllen, a mentrodd Miss E. Hughes a Mrs K. Watkins ar y dasg a chael hwyl ardderchog arni. Cafwyd cystadleuaeth ar y canlynol hefyd: Llinell Goll — enillydd Miss E. Hughes; Brawddeg (llythyren H) —

enillydd Mrs M. Williams; Brawddeg o'r gair 'Dolbadarn' — enillydd Mrs G. Chick.

Diolchodd Mrs Chick i Mr Jones am ei barodrwydd i ddod, a hynny ar fyr rybudd y tro hwn. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs E. M. Jones a Mrs M. Rowlands. Enillydd y raffl oedd Mrs J. Parry.

Ar 4 Ebrill, oherwydd agosrwydd y Pasg, darparodd yr aelodau de arbennig, a phawb yn cyfrannu at y danteithion. I ddilyn roedd Mr R. H. Parry wedi tynnu allan destunau cystadleuaeth ar ein cyfer, a chafwyd pnawn hwyliog yn mynd drostynt, ac yn beirniadu. Dyma'r buddugwyr — Llinell Goll: 1, Mrs E. M. Jones; 2, Mrs G. Chick; 3, Mr Ll. Hughes. Beddagraff: 1, Llew Hughes; 2, Miss E. Hughes. Hen Bennill: 1, E. Hughes; 2, G. Chick; 3, Ll. Hughes. Parodi: 1, G. Chick; 2, K. Watkins; 3, M. Williams. Llinell (D): 1, E. M. Jones; 2, G. Chick; 3, E. Hughes. Llythyr Cais: 1, Llew Hughes; 2, E. Hughes; 3, K. Watkins.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod i'r aelodau yn yr Ysgol Gymuned, nos Fawrth, 9 Ebrill. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi. Darllenwyd cofnodion o'r pwyllgor a gafwyd ym mis Mawrth a phasiwyd eu bod yn gywir. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs G. Roberts a Mrs S. Edwards. Y mae gwasanaeth o ddiolchgarwch i ddiweddu blwyddyn canmlwyddiant

Noson o Gân

Nos Sul, 19 Mai, yng Nghapel Coch, Llanberis, cynhelir Cymanfa Goffa Huw Peris Pritchard. Estynnir gwahoddiad cynnes gan y trefnwyr, sef Côr Meibion Dyffryn Peris, i bawb i ddod i Lanberis i fwynhau'r wledd o ganu, ac ar yr un pryd i dalu teyrnged i'r diweddar Huw Peris Pritchard a fu'n organydd yng Nghapel Coch am flynyddoedd lawer.

Gŵr bonheddig, distaw, oedd Huw Peris, a fu'n ffyddlon iawn i'w gapel ac i'r pentref. Roedd bob amser yn barod ei gymwynas ac yn cael pleser arbennig wrth yr organ yng Nghapel Coch yn y gwasanaethau ac yn y nosweithiau o gân oedd yn cael eu cynnal yno.

Arweinydd y gân ar y noson fydd Aled Lloyd Davies, Yr Wyddgrug, a R. H. Morris (Dic Huw, i'r rhan fwyaf ohonom) yw'r cyfeilydd. Ceir eitemau gan Hogia'r Wyddfa, Côr Meibion Dyffryn Peris a Lleisiau Lliwedd. Dei Tomos fydd yn llywio'r noson. Bydd mynediad drwy raglen £1.

Am ragor o fanylion ffoniwch 870371 neu 871006.

Yn y llun: Huw Peris Pritchard — organydd Capel Coch am dros hanner canrif. Organ drydan sydd



yn y capel heddiw — ond yn yr hen ddyddiau roedd yno un yn gweithio â dŵr. Tybed oes rhai ohonoch chi yn gallu ymhelaethu ac yn fodlon rhoi rhywfaint o hanes organ ddŵr Capel Coch i'r Eco.

yr Undeb yn cael ei gynnal yn yr Eglwys Gadeiriol, Bangor, 22 Mai, am 3 o'r gloch. Cafwyd adroddiad gan Mrs Taylor am y pwyllgor a gynhaliwyd ym Mangor ar 7 Mawrth. Croesawyd y wraig wadd, Mrs D. Atkins, Arlywydd y Ddeoniaeth, gan Mrs Taylor. Cafwyd sgwrs ar y rhan a gymerodd fel cynrychiolydd yr Undeb yn Llundain, i ddatlu penblwydd y Fam Frenhines. Diolchwyd i Mrs Atkins gan Mrs H. Orritt. Aelodau Cwm-y-Glo oedd yn gyfrifol am y lluniaeth, a diolchwyd iddynt gan Mrs Joan Side. Rhoddwyd y raffl gan Mrs D. Jones, a Mrs Watkins a'i henillodd. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi. Bydd y cyfarfod nesaf yng nghartref Mrs Joyce Ransom, Llanrug, am 7 o'r gloch, nos lau, 2 Mai.

Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo Tydy amser yn mynd yn gyflym d'wch, neu mi rydw i yn mynd yn hen. Ella bod y ddau yn wir. Ond cyn wirioned ag ydw i wedi gorffen un llith i'r Eco mae'n amser paratoi un arall.

O'r diwedd mae tystysgrifau a bathodynau y Prawf Beicio wedi

cyrraedd i blant Dosbarth 3 a 4. Llongyfarchiadau ar waith mor dda. Gobeithio y cewch gyda'r nos braf i fynd am dro ar gefn eich beic.

Llongyfarchiadau i Robbie Shaw a Rhys Morris am ennill bathodyn arian am fedru cynnal eu hunain yn y pwll nofio dan amrywiaeth o ddulliau.

Dim ond dau beth arall sydd i'w ddweud y mis yma a rhaid defnyddio'r gair DIOLCH yn y ddwy eitem.

Diolch i bawb am ymateb mor sydyn a charedig i'r apêl am ddillad i'r Kurdiad. Chwecch llwyth car! Mae pobl Cwm yn dangos consyrn am eu cyd-ddyn, pwy bynnag y bo.

Diolch hefyd i bawb ddaru gefnogi'r plant yn yr ymgyrch casglu arian drwy weithgareddau noddedig. Dysgwyr llawer o ddarhebbion a hwiangerddi, a.y.b. Casglwyd £340.73 tuag at gronfa'r ysgol. Diolch o waelod calon i bawb fu'n cyfrannu mor hael. Mae'n braf gwybod fod ein ffrindiau yn dal i gofio amdanom. Sarah Lynne a Kim Cullen oedd y ddwy ddaru gasglu fwyaf a chafodd y ddwy ohonynt docyn llyfr i ddangos gwerthfawrogiad o'u hymdrechion yn csglu bron i £100 rhyngddynt. Da iawn a diolch i bawb.

Wel, dyna ni am y tro yma. Llith go fer am unwaith! Tan tro nesaf — yn iach y boch a dibechod. Hwyl fawr.


DYCHWELYD

Pan âf yn ôl i Gwm-y-glo
Bydd hen atgofion arna'n mennu,
A hoff gyfoedion ddaw im co'
Pan âf yn ôl i Gwm-y-glo;
A chwyd rhyw hiraeth am y fro
A wyddwn gynt, cyn dod o'r chwalu;
Pan âf yn ôl i Gwm-y-glo
Bydd hen atgofion arna'n mennu.

YMSON UWCHBEN CRUD

Pan dyfi di i oedran dyn
Efellai bydd y byd yn gallach,
A gwir frawdgarwch ar ddi-hun
Pan dyfi di i oedran dyn;
A daw i'th ran i weld pob un
Mewn rhyw gyfundrefn fydd yn decach;
Pan dyfi di i oedran dyn
Efellai bydd y byd yn gallach.

Robert Henry Parry



J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898 (dydd)
Caernarfon 76285 (nos)

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i bregethu yng nghapel y pentref yn ystod y dyfodol agos — mis Mai 5: dim gwasanaeth — y Gymanfa Ganu; 12: Parch Elwyn Edwards; 19 (Sulgwyn): Parch W. R. Williams; 26: Parch Erfyl Blainey; Mehefin 2: Parch Gwilym Hughes. **Sioe'r Pentref:** Cynhelir y sioe eleni ar ddydd Sadwrn, 17 Awst. Gellir gweld y rhaglen garddio ar hysbysfwrdd y pentref. Dosberthir rhaglenni garddio o amgylch y pentref a'r cyffiniau yn ystod y dyfodol agos, neu gellir eu casglu oddi wrth Ifor Hughes, Lleifior. **Hospis yn y Cartref:** Y digwyddiad nesaf er mwyn codi arian tuag at nod apêl y pentref fydd stondin gwerthu ar y Maes yng Nhaernarfon, ar ddydd Gwener, 24 Mai. Bydd aelodau'r pwyllgor yn cysylltu â phawb ymlaen llaw er mwyn casglu rhoddion ar gyfer y stondin, yn arbennig cacenau a chynnyrch arall y gegin. **Cyngor Cymuned:** Cafwyd sgwrs amserol gan y Rhingyll Geraint Anwyl Williams am fanteision cynllun Gwarchod Cymdogaeth i leihau nifer y troseddau mewn pentrefi. Penderfynwyd gofyn i gynrychiolydd o'r heddlu fynychu cyfarfod cyhoeddus yng Nghaeathro cyn bo hir. Bydd cyfarfod arall yn fuan er mwyn ceisio gwella llwybr Prysgol ar ôl y gwaith aneffeithiol a fu yno o dan nawdd y Cyngor Cymuned. O'r diwedd mae'r Cyngor Sir wedi dechrau gwneud gwaith paratoi palmant a gosod cwrbyn (kerb)

trwy'r pentref, gan gynnwys: gosod cwrbyn o Eryl Cottage hyd at derfyn Y Bwthyn a Phant yr Efail-bach a glanhau'r tyfiant rhwng y ffordd a'r wal a tharmacio hefyd ar ochr arall y lôn; o gyffiniau Tremallt at y polyn golau cyntaf ar ôl Pont yr Efail-bach.; gosod cerrig crymion rhwng y palmant a'r wal sy'n ffinio â rhifau 11 a 14 Yr Erw Wen; gosod cwrbyn ar y gyffordd rhwng hen lôn Pontrug a'r ffordd ysgoi newydd; tacluso'r adrdal rhwng y sedd a'r arwydd 30 m.y.a.

Penderfynwyd argymhell Cyngor Arfon wrthod cais cynllunio cadw'r cytiau moch yng nghae 4069 ar y briffordd i'r Waunfawr gan fod y datblygiad yn anweddus i'r lleoliad a dylai'r tir gael ei ail-osod i'r pwrpas gwreiddiol. Mae Cyngor Arfon wedi rhoi caniatâd cynllunio am estyniad i Glandŵr a byngalo ar dir Tryfan a chadw'r bwch yn wal Glangwna ar hen lôn Pontrug am dri mis yn unig. Penderfynwyd hefyd ofyn i Nwy Cymru am y posibilrwydd i ddod â nwy naturiol i Gaeathro.

Gwellhâd buan i Heinz, 9 Rhes Glangwna sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Da yw deall fod Mr Patrick Atkinson, Cefn Gof yn gwella.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON



Nos Lun, 19 Chwefror bu'r aelodau yn ymweld a 'Piggery Pottery', Llanberis, lle cafodd pawb fynd o amgylch y ffatri a thaflu lwmp o glai a cheisio gwneud crochenwaith ohonno. 'Roedd siâp dda ar rai o'r crochenwaith. Bu rhai hefyd yn peintio'r crochen. Diolch i'r staff am ein tywys o gwmpas ac am ddangos sut 'roeddem i wneud crochan.

Ysbyty Ifan oedd ein cyrchfan nos Fercher, 20 Chwefror, lle y cynhaliwyd rhagbrofion Eisteddfod Gadeiriol Eryri. Bu Ruth yn cystadlu ar y canu dan 21 oed a bu'n llwyddiannus drwy gael llwyfan ym Mhwlheli. 'Roedd Parti Deulais y merched yn cymryd rhan ond ni fuont yn ddigon lwcus i sicrhau llwyfan. Dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd i'r Clwb gystadlu yn yr eisteddfod.

Dydd Sadwrn, 3 Mawrth, y cynhaliwyd yr eisteddfod yn Neuadd y Dref, Pwllheli, ond gan fod Ruth dan anwyd trwm ni allai gystadlu. Bu Aled ac Eurwyn yn cynrychioli'r clwb yn y seremoni cadeirio gan mai Eurwyn oedd Ceidwad y Cledd ac Aled yno fel cadeirydd y clwb.

Cynhaliwyd cystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru yn Ysgol

Eifionydd, Porthmadog, dydd Sadwrn 16 Mawrth. 'Roedd cynrychiolaeth dda o'r clwb yno gan fod Catrin yn cystadlu fel siaradwr o dan 16 oed, a'i thestun oedd 'Rhaglenni Teledu'. Gwnaeth y tim yn dda drwy ddod yn gydradd drydydd. Dan 21 oed roedd Aled, Tudur, Wendi a Menna yn cystadlu ar ffurf Seiat Holi. Cawsant gwestiynnau neu osodiadau ofnadwy i'w trafod gan mai dim ond un-ar-bymtheg oed oedd yr hynaf o'r rhai oedd yn trafod ac felly ni ddaethant i'r brig. Bu Sioned a Myfanwy yno'n stiwardio. Diolch yn fawr i bawb ohonynt.

Treuliwyd ambell nos Fawrth yng nghwmni gwahanol wahoddedigion yn siarad am Awstralia a Drygiau.

Ar hyn o bryd mae'r aelodau yn paratoi ar gyfer y Rali a gynhelir eleni yn Lleuar Bach, Pontllyfni. Clybiau Caernarfon a Dyffryn Nantlle sy'n gyfrifol am baratoi ar gyfer y Rali ac felly mae'r aelodau yn brysyr yn paratoi a darparu'r fferm ar gyfer y cystadleuthau. Bydd croeso i bawb i ddod yno i weld gweithgareddau'r mudiad.

Nos Fercher, 10 Ebrill, cynhaliwyd cystadleuthau dartiau a pwl yng Nghanolfan Tanybont. Aeth Elwyn a Helen i daflu dartiau yn unigol ac fel pâr. Gwnaethant yn dda fel tim drwy ddod yn ail. Aled ac Eurwyn fu yn ein cynrychioli yn y gystadleuaeth pwl. Ni ddaethant i'r brig ond diolch i bawb am gystadlu.

Neges y Tarots Y Gwalch

Roeddwn unwaith yn gweithio yng ngerddi stâd fechan yn Sussex. Dynes oedd ei pherchennog. Roedd ganddi ddiddordeb masnachol yn ne Affrica, a byddai yn treulio cyfnodau maith oddi cartref.

Serch hynny, roedd y sefydliad yn cael ei redeg yn drefnus. Roedd yno fferm gartref lewyrchus, a chymysgedd o wartheg a defaid, o dan ofal hwsmon a bugail profiadol.

Roedd yno howsgipar yn gofalu am y tŷ, ac yr oedd y gegin o dan ofal cogyddes barhaol. Dynes led ifanc ydoedd, ac yr oedd gen i fwy o gyfathrach â hi na neb arall yn y tŷ, gan y byddwn yn galw arni yn ddyddiol i gael gwybod sut gynnyrch a ddymunai gael o'r ardd. Roedd hithau yn ei thro yn gofalu fod yna gwpanaid i minnau yn y gegin ganol y bore. Sylweddolais fod hyn yn fraint, ar ôl i mi ddeall na fynnai i bawb dresmasu ar ei thiriogaeth.

Roedd ganddi gi mawr Affgan, a ffordd arall o'i thramgwyddo oedd peidio â rhoi ei ddyledus barch i hwnnw. Clywais fod y bugail unwaith wedi ennyn ei dig drwy roi bai ar yr anifail am ladd dafad.

Ei diddordeb arall oedd astudio hynt y sêr a'u dylanwad ar ddyfodol meidrolion. Gwyddwn ei bod yn trefnu rhai o'i symudiadau i gydfynd â chyfarwyddid y tarots. Roedd hi'n awyddus iawn i drafod y cardiau ynglŷn â'm dyfodol i, a rhyw fore, o ganlyniad i wendid ysbryd, goddefais iddi wneud. Ar ôl gosod y cardiau yn gylch, pwyntiodd at un a dywedodd.

'Mae'na rhyw ferch wallt golau yn mynd i adael eiddo i ti. Gad i dy ben lywodraethu dy nwydau. Ond mi ei i helynt hefo'r gwn yna sy' gen ti. Gwell fydd i ti gadw'n glir o'r coed.'

Gwyddwn ei bod yn wrthwynebus i bawb a laddai wylltflod. Pan fyddai'r perchennog yn absennol, byddwn i weithiau, ar nosweithiau lloergan, yn mynd i'r coed i saethu ffesants. Roeddwn i wedi synnu braidd ei bod hi'n gwybod hynny, ond ddwedais i 'run gair.

Pan ddaeth y gaeaf, ail afaelais yn yr arferiad, ac un noson ganaid,

mentrais i gwr pellach o'r coed nag y bum ynddo o'r blaen. Gyda hynny, aroglais fwg prisiau, a gresynais fod rhywun wedi bod mor anghyfrifol â rhyfygu rhoi'r goedwig ar dân. Yn sydyn daeth sŵn o'r dde, a thyngais weld cip ar rhywun yn symud drwy ddyrys-lwyni.

Pa 'run bynnag, es ymlaen nes darganfod y tân. Roedd o mewn llannerch wedi ei hamgylchu â choed derw preiffion. Taflais bridd arno, ac yr oeddwn ar droi i ddychwelyd pan godais fy ngolygon, a gwelais benglog myharen wedi ei hoelio wrth un o'r deri. Wrth gerdded adref, tybiais i mi glywed ci yn cyfarth ym mherfeddion y coed.

Chefais i fawr o gyfle i bendroni ynglŷn â'r digwyddiad. Trannoeth daeth plismon i ofyn i mi am drwydded fy ngwn. Pan sylweddolais fy mod wedi esgeuluoso ei adnewyddu, roedd hi'n rhy hwyr. Dygodd yr erfyn oddi arnaf, a bu raid i mi dalu dirwy o rai punnoedd cyn ei gael yn ei ôl. Ond doedd hynny ddim ond cychwyn cadwyn o gyfriniaeth.

Daeth y bugail un bore ar draws yr ardd i dorri ei siwrne. Nid oeddwn wedi ei weld ers tro byd. Ar ryw sgwrs dywedodd ei fod wedi colli ei fyharen gorau ers dipyn, a doedd ganddo yr un syniad beth oedd wedi digwydd iddo.

Tua'r un twymiad daeth i mi neges fod fy mam yn wael. Cyn i mi gael cyfle i gyrraedd ei hochr, bu farw. Roeddwn i ymhen y rhawg yn naturiol etifeddu ei heiddo. Ers hynny rwyf wedi cofio ei bod hi, yn eu hieuenctid, yn nodedig yn y plwyf am ei gwallt ŷd-felyn llaes.

Beth am
ddysgu
dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL

**TACSI
CARIAN**

- * Pell ac agos
- * Stesion, Maes Awyr, Porthladd
- * 24 awr y dydd

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Hospis yn y Cartref: Daeth cynrychiolaeth dda o'r pentrefwyr i'r Festri nos Lun, 8 Ebrill, i gyfarfod â June Howarth, un o drefnwyr Hospis yn y Cartref yng Ngwynedd. Rhoddwyd amlinelliaid cryno o amcanion y cynllun ac awgrymiadau sut i fynd ati i godi arian tuag ato. Wedi trafodaeth ymhlith y rhai oedd yn bresennol, penderfynwyd lansio'r apêl yn y pentref gyda Barbeciw a fydd i'w gynnal yn ystod mis Mehefin — y dyddiad i'w hysbysebu yn y dyfodol agos — pryd y croesewir June Howarth unwaith yn rhagor i ddweud gair ymhellach am yr Apêl.

Tân mewn cartref: Brawychwyd pawb o ddeall am y tân a ddigwyddodd yn 3 Tai Orwig yn gynnar fore lau, 18 Ebrill, gan wneud difrod eang i ystafell fyw y teulu. Ond rydym yn falch o ddeall fod Melfyn a Glenda Roberts a'u dau blentyn ifanc, wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd wedi dychwelyd gartref. Yn naturiol, fel pentrefwyr rydym yn gofidio am yffod oherwydd y digwyddiad anffodus hwn ac am y golled a wnaed i eiddo. Os dymunwch eu cynorthwyo yn ymarferol, mae modd gwneud hynny trwy roi cyfraniad mewn blwch arian yn y Llythyr.

Pont Penllyn: Sawl un o'r pentrefwyr tybed a gafodd rag-hysbysiad fod hen Bont Penllyn yn cael ei chau i drafnidiaeth y mis hwn? Wel, hynny a ddigwyddodd. Deallir fod palmant yn cael ei adeiladu ar hyd un ochr i'r ffordd dros y bont.

Eglwys M.C. Brynrefail: Nos Fercher, 10 Ebrill, bu nifer o'r aelodau yn cymryd rhan yn y telediad 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' a recordiwyd yng Nghapel Coch, Llanberis ac a ddarlledir ar ffurf dwy raglen nosweithiau Sul 28 Ebrill a 26 Mai. Llawnwyd oedd canfod fod rheolaeth beirianyddol y cynhyrchiad yng ngofal un o hogiau Brynrefail, sef Tegid Jones, mab Mr Thomas Jones, 2 Ffrwd Madog. Rydym yn anfon ein cofion at Mr Thomas Jones sydd wedi bod yn dioddef o anhwylder yn ddiweddar ac ar hyn o bryd yn cartrefu ym Mhlas Pengwaith. Yno hefyd ers peth amser mae Mrs Mair Griffith, Ael y Bryn, ac rydym yn gweld ei cholli o'n plith. Ein cofion hefyd at Mr William Evans, 3 Ffrwd Madog, sydd wedi bod yn bur llesg

ers rhai misoedd ac sydd yn awr yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Mae nifer eraill o'r henoed yn ein mysg y mae eu lle yn wag yn yr oedfaon wedi bod dros fisoedd y gaeaf — hyderwn y byddwch yn adennill nerth a'r haf yn awr o'n blaenau.

Roedd oedfa fore Sul, 21 Ebrill, yn achlysur unigryw. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog y Parch John Morris ac yn ystod y gwasanaeth cafodd yr hyfrydwch o weinyddu'r Sacrament o Fedydd pryd y bedyddiwyd efeilliaid bychain Mr a Mrs Myrddin Jones, Na Nog, Stâd Erw Nant — Caryl ac Awen, sydd hefyd yn wyresau i Mrs Megan Jones, Greuor Villa a gorwyresau i Mrs Maggie Closs Parry, Bryniol, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 88 oed ar 23 Ebrill. Y ddwy fam fedydd oedd Mrs Veronica Owen, Waunfawr (sydd hefyd yn efeilles a mam Caryl ac Awen) a Miss Medwen Jones eu modryb, chwaer eu tad. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Parch John Morris fedyddio efeilliaid a diau fod rhaid mynd yn ôl gryn hanner canrif pan fu achlysur cyffelyb yng Nghapel Brynrefail o'r blaen; ac ar droad y ganrif cyn hynny.

Cymdeithas y Chwiorydd: Nos lau, 11 Ebrill, agorwyd tymor newydd y Gymdeithas. Croesawyd yr aelodau gan yr ysgrifenyddes, Mrs Ifanwy Jones. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Betty Owen, Tros yr Afon. Sylfaenodd ei myfyrdod ar rai agweddau o waith yr emynyddes Ann Griffiths. Miss Annie May Williams, Llys Arfon oedd cadeirydd y noson a phleier iddi hi oedd cael cyflwyno un o'i chyfoedion yma ym Mrynrefail, sef Miss Alice Williams, Caernarfon, y wraig wadd. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddi yn mesur y dylanwadau a fu arni a hynny yn arwain at ei phrif ddiddordeb, sef Dawnsio Gwerin — maes a ddaeth a llawer o anrhydeddau iddi. Diolchwyd iddi gan Mrs Jennie Angharad Roberts. Gofalwyd am banded i bawb gan Mrs Ifanwy Jones a Miss Lowri P. Roberts. Ar y terfyn trefnwyd i wneud casgliad yn lleol at y Genhadaeth a chynnal gwibdaith flynyddol yr Eglwys dan nawdd y Gymdeithas. Etholwyd Mrs Jennie Angharad Roberts yn llywydd am y tymor. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, 7 Mai, pryd y disgwylir Mr Rol Williams, Waunfawr i roi sgwrs.

Sefydliad y Merched: Nos Wener, 12 Ebrill, bu nifer o aelodau'r gangen yn cymryd rhan mewn Ffug Eisteddfod a gynhaliwyd yn y Neuadd, Groeslon. Wedi llawer o hwyl ynglŷn â'r paratoi daeth nifer o wobrau i ran yr aelodau: Deuawd (3ydd) Betty Owen ac Euronwy Roberts; Stori Ddigrri (2il) Eirlys Williams; Meim (2il) Gwenllian Edwards, Gwendol Davies, Glenda Morris, Dwynwen Williams, Mai Davies, Pat Jones ac Eleanor Williams; Côr (3ydd); Band y Botel (2il); Deialog (2il) Pat Jones ac Eleanor Williams; Telyneg (3ydd) Lowri P. Roberts; Brawddeg (2il) Audrey Hasson.

Bu cyfarfod y mis, nos Lun, 15 Ebrill. Y siaradwr gwadd oedd Mr Tom Foulkes, Bethel. Rhoddodd sgwrs ddiddorol am ei waith fel Pennaeth Canolfan Hyfforddi

leuenctid yn Llangefni. Gwnaed y te gan Gillian Morris a Gwawr Morris. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Glenda Morris, gan Pat Jones. Mae trefniant ar y gweill ar ddydd Sadwrn yn ystod mis Mai i gael diwrnod arbrol yng Nghanolfan Cwm Pennant o dan hyfforddiant Steve ac Anita Long, Tan yr Onnen — diwrnod o ganwio, dringo a 'crypton factor'. Enwau rhag blaen, os gwelwch yn dda, i Betty Owen neu Pat Jones. **Nadolig ddiwedd Mawrth!** Peth go chwithig oedd cerdded i mewn i'r llythyr un bore ddiwedd Mawrth ac addurniadau Nadolig yn crogi uwchben a thinsell yn eich dallu ar bob llaw. Brysiodd y perchennog i egluro fod cwmni ffilmio yn dod yno drannoeth — ffilm ar gyfer y Nadolig nesaf!



Caryl ac Awen, efeilliaid Myrddin ac Eleanor Jones, Na Nog, Stad Erw'r Nant, a fedyddiwyd ar Ebrill 21ain.

Gwaith Proffesiynol Prisiau Rhesymol
Am holl anghenion eich offer nwy

FFLAM ERYRI

Rhowch alwad i arbenigwr wedi'i hyfforddi'n llawn gan Nwy Prydain

Gwasanaeth 24 awr

Geraint Fôn Williams Penmaenmawr 622422

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING
MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn otoc

ECO'R IFANC

RADIO ERYRI

- D.J.: Helo, Sut mai? Dyma George Huws — fi sydd yn cyflwyno Radio Eryri.
- George: Helo, fi ydy George a dwi wedi prodi'r hogan blond ma' de, o'r pentra 'ma.
- D.J.: George, Beth ydych yn feddwl o Arthur Picton?
- George: Wel, dwi 'de, yn meddwl 'de, bod Affyr yn râl 'party popper'.
- D.J.: Pam 'rwyd ti yn dweud hynny?
- George: Achos oedd Sandrŷ a fi 'de isho mynd i disgo a dyma Affyr yn deud byddwch adra erbyn deg o'r gloch 'de — ne na'i ddod i chwilio am dana 'chil!
- D.J.: Os ydi Arthur Picton yn gwrando 'dwi yn meddwl na dydio ddim yn deg bod Sandra i fod adra erbyn deg o'r gloch!
- George: A finna hefyd Affy os wyt ti yn gwrando 'de.
- D.J.: Fysa chdi yn hoffi dweud rhywbeth arall?
- George: Ia, gai ddweud 'helo' i Sandrŷ 'de neu fydd hi 'de yn 'de flin gacwn efo fi 'de.
- D.J.: George — wyt ti eisiau dweud 'Ta-ta' wrth bawb?
- George: Tara pawb 'de.
- D.J.: A diolch i George Huws am ddod yma i siarad am ei deulu. 'Ta' oddi wrth Radio Eryri — a diolch am wrando — Ta!

KAREN TANFIELD (11 oed)

★ ★ ★ ★ ★

GOLEUADAU HAPUS

- 'Mae yna lawer o blant yma heddiw,' meddai Mrs Jones (mam Jo).
- 'Jo, Jo!' gwaeddodd Mrs Jones, 'Mae'n amser rhoi golau'r goeden Nadolig ymlaen.'
- 'Dod rwan mam.'
- Roedd 20 Stryd Llun yn llawn o blant a oedd wedi dod i'r parti penblwydd mewn gwisg ffansi. Roedd pawb eisiau gweld y golau oedd ar y goeden.
- Roedd hi'n ddiwrnod cyn noswyl y Nadolig ac ar ôl cael parti roedden nhw am fynd i bantomeim. Roedd y parti wedi dechrau ac roedd y plant yn gweiddi dros bob man.
- 'Cadwch y swm i lawr!' gwaeddodd chwaer Jo.
- Ar ôl i'r parti orffen daeth mam i mewn gyda plât, ag ar y plât roedd . . . 'Teisen penblwydd i Ti,' meddai Jo. Ar ôl i bawb gael tamaid aethon nhw i'r pantomeim.
- Roedd yna llawer o wahanol fathau o goleuadau yno.
- 'Mae yna llawer o goleuadau hapus yma,' meddai Jo.
- Roedd yno oleugylch. Ar y ffordd i'r disgo gwelodd y plant llawer o goed Nadolig gyda goleuadau hapus.
- Roedd band wedi dod i'r disgo. Roedd yna goleuadau piws, glas, gwyrdd, coch, melyn, oren a gwyn. Roedden nhw wedi dod o hyd i fwy o goleuadau hapus. Ar ôl i'r plant fynd adre roedd Jo yn anhapus.
- 'Beth sy'n bod Jo?' meddai Mrs Jones.
- 'Does gen i ddim cardiau na presantau.'
- Chwarddodd Mrs Jones, 'Mae nhw o dan y grisiau'.

GEMMA ORLICK (9 oed)

★ ★ ★ ★ ★

GOLEUADAU HAPUS

- Un tro tua pumdeg o flynyddoedd yn ôl mi roedd yna eneth fach o'r enw Siân. Mi 'roedd Siân yn hoffi storïau ysbrydion ac yn y blaen. Ond toedd hi erioed wedi gweld ysbryd. Ond un noson pan oedd y lleud yn llawn aeth i'r goedwig. Roedd hi yno am hanner awr — wedyn gwelodd rhywbeth — ta meddwl oedd hi? Penderfynodd i fynd yn ei blaen, wedyn gwelodd o yn glir! Siâp geneth fach oedd o, a toedd o ddim yn olau trist o gwbwl roedd o yn hapus, hapus. 'Helo,' meddai hi. 'Ysbryd wyt ti?' meddai hi. 'Ia,' atebodd. Roedd hi yn dechrau crynu rwan. 'Paid ag ofni,' meddai, 'Gwnai ddim byd i ti. Beth yw dy enw di?' meddai hi. 'Siân' atebodd. 'Beth yw dy enw di?' gofynodd Siân. 'Lowri' atebodd. 'Dyna enw neis' meddai hi. 'Wel, sut wnes di ddod yma? gofynais i. 'Cael fy nghosbi' meddai hi. 'Pam?' holodd Siân. 'Am siarad yn yr ysgol a rhoi pum punt i pres casgliad yr eglwys a chymryd tair punt yn ôl fatha newid,' atebodd.
- 'Pam mae dy olau mor hapus, ta?' gofynodd Siân. 'Wedi dy weld di roeddwn i' atebodd Lowri. 'Fysat ti yn hoffi dod i'n tŷ ni?' 'lawr,' meddai Lowri. 'Mae'n rhaid i ti guddio o dan fy nest ta' dywedodd Siân. Aeth Lowri a Siân i dŷ Siân. Roedd golau Lowri mor hapus roedd yn edrych fel seren yn y nos. Am ryw dair noson arall toedd Lowri ddim yno — wedi mynd i aros efo ei mam a'i thad meddai hi. Un diwrnod yn yr ysgol dywedodd Siân wrth ei ffrind Rhian am ddod i weld Lowri, ond toedd Lowri ddim yno. Wedyn dyma Siân yn gweld llythyr ar y ddesg ac roedd yn dweud . . . 'Annwyl Siân, Rydw i wedi dy glywed yn dweud wrth dy ffrind am ddod i fy ngweld i dyna pam rydw i wedi gadael — sori. Oddi wrth, LOWRI . . .

LUCY THOMAS (9 oed)

★ ★ ★ ★ ★

Cynhaliwyd Eisteddfod bentref Llanberis yn ddiweddar. Dyma ychydig o'r gwaith llenyddol buddugol o'r 'Steddfod. Sgwrs ar y radio rhwng dau berson oedd un o'r testunau a 'Goleuadau Hapus' oedd y testun arall. Diolch i chi blant Llanberis am y cyfle i ddarllen eich storïau. Mwynhewch 'nhw . . .

Radio Cymru efo D.B.R.

- Cyflwynydd: Helo, rydych yn gwrando ar Radio Cymru. Dwi'n siwr bod PAWB wedi clywed newyddion neithiwr. NADDO? Wel, dyma beth ddigwyddodd. Roedd yn hen ddynas yn galw'r ci i'r tŷ, daeth golau MAWR dros bob man. Rhedodd i fewn a galwodd yr Heddlu. Pan ddaeth yr Heddlu fe ddaliodd nhw DYN BACH RHYFEDD o'r GOFOD. Ac heddiw mae'r Heddlu wedi gadael i ni roi cyfweiliad iddo.
- Helo, ydych chi yn medru siarad Cymraeg?
- D.B.R.: Ydw.
- Cyflwynydd: Beth yw eich enw?
- D.B.R.: D.B.R. yw fy enw.
- Cyflwynydd: D.B.R.? Os gwelwch yn dda ga' i ofyn beth ydy ystyr D.B.R.?
- D.B.R.: DYN BACH RHYFEDD!
- Cyflwynydd: O! dwi'n gweld: D am Dyn; B am Bach, ac R am Rhyfedd.
- D.B.R.: Sut wnaethoch chi ddwâd yma, a pham?
- D.B.R.: Fe wnes i ddwâd yma mewn llong ofod i chwilio am fy ffrind Kylie (hi roddodd yr enw D.B.R. i fi).
- Cyflwynydd: Sut ydych chi yn adnabod yr hogan ma Kylie?
- D.B.R.: Wel, rhyw 5 mlynedd yn ôl wnes i ddwâd yma i'r ddaear ac . . .
- Cyflwynydd: Beth oedd y dyddiad?
- D.B.R.: Chwefror 10fed 1989, rwyf yn meddwl. Ac...
- Cyflwynydd: O, ia? diwrnod penblwydd fy ngwraig felly.
- D.B.R.: A glaniodd y llong ofod yn y parc. Pan agorodd drws y llong ofod, roedd yna hogan (Kylie oedd hi) yn edrych yn wyn iawn. Ofn mae'n siwr.
- Cyflwynydd: Beth ddigwyddodd wedyn, 'naeth hi redeg i ffwrdd?
- D.B.R.: Cafodd hi ddim cyfle. Gwnaethom ffrindiau ac es i a hi adref i fy nghartref. Wedyn aeth hi adref.
- Cyflwynydd: A neithiwr roeddach chi yn chwilio am Kylie?
- D.B.R.: Ia, ond daeth dynion yn gwisgo dillad glas a fy nal i.
- Cyflwynydd: Beth am gael cân 'rwan a siaradwn ni efo D.B.R. mewn munud.
- (Ar ôl y gân)
- Cyflwynydd: Rwan, D.B.R. beth yw eich oed?
- D.B.R.: 5 mil 300 o flynyddoedd oed.
- Cyflwynydd: Dydach chi ddim yn edrych mor hen a hynny!
- D.B.R.: Dwi'n gwybod.
- Cyflwynydd: Wel, rhaid i ni ddweud ta, ta, wrth D.B.R. Mae o wedi bod wel, wel, ym, ym, wel yn ddiddorol iawn yn siarad efo chi D.B.R. Peidiwch a mynd trwy'r drws ffrynt, mae'r Heddlu yn disgwyl amdanoch chi — ewch trwy'r cefn ac ewch i chwilio am eich ffrind — gobeithio ddoi di o hyd iddi. 'Ta ta rwan'.
- D.B.R.: Ta-ta — a diolch yn fawr.

TASHA ALLSUP (11 oed)

★ ★ ★ ★ ★

- D.J.: Helo bawb — sydd yn gwrando arna' i ar VHF!!
- Ein gŵr gwadd heddiw ydy Mr Major ac hefyd yr hogyn sydd wedi ennill y ras golomenod enwog.
- O! na! Mae Mr Major wedi ffonio i ddweud ei fod o yn dod am 3 o'r gloch ac ddim 2 o'r gloch ond mae yr hogyn yn siwr o ddod . . . O dyma fo.
- Helo. Beth ydi eich enw chi?
- Aled: Aled.
- D.J.: Sut wyt ti Aled, wyt ti yn iawn?
- Aled: Yndw, diolch.
- D.J.: Rwan. Beth ydy enw y golomen sydd wedi ennill y ras yn Llundain?
- Aled: Ei enw fo ydi Blue Flash.
- D.J.: Mae hwnna yn enw da i golomen. Ac 'rwan pwy ydi hwn sydd wedi dod efo chdi?
- Aled: O hwn ydi fy nhad. Fo brynodd Blue Flash i mi ar fy mhen blwydd.
- D.J.: Helo, Mr ????? Wel, Aled, chi sydd yn hyfforddi y golomen?
- Aled: Ia, dwi'n mynd yn y car i'r goedwig efo Blue Flash a 'dwi yn ei adael yn rhydd ac mae Blue Flash yn mynd i'r awyr ac wedyn mae dad a fi yn mynd yn ôl adra ac aros yn yr iard — ac mewn pymtheg munud mae Blue Flash yn dod yn ôl ataf.
- D.J.: O, felly mae Blue Flash yn aderyn clyfar?
- Aled: Yndi, mae o yn glyfar iawn.
- D.J.: Beth ydach chi yn roid i'r golomen i'w fwyta?
- Aled: Wel, da' ni yn rhoid corn a hadau iddi hi.
- D.J.: Beth gawsoch chi am ennill y ras? Oedd 'na wobwr dda?
- Aled: O, oedd — cefais £25 a bwyd i Blue Flash am bum mlynedd!
- D.J.: Rhaid i ni orffen 'rwan — achos mae Mr Major ar fin dod. Ta-ta Aled — diolch yn fawr i chi am ddod i mewn i'r stiwdio.

ADAM RUDKIN (10 oed)

★ ★ ★ ★ ★

ENILLYDD CYSTADLEUAETH MIS EBRILL YW

DAFYDD SIÔN PRITCHARD, Cilfynydd, Llanberis (6 oed).

Llongyfarchiadau lu hefyd i'r canlynol am luniau mor dda: **Claire Lloyd Williams**, 9 Rhes Victoria, Deiniolen (5½ oed); **Ceri Ann Mill**, Erw Sant, Ffordd Aion, Bangor (6 oed); **Dafydd Harri Morris**, Tŷ Capel M.C., Dinorwig (7 oed); **Elfed Morgan Morris**, Llechwedd, Deiniolen (8 oed).
Da iawn chi blantos!!

Rŵan beth amdanat ti — fedri di liwio'n dda?

Beth am anfon dy gais i'r 'Gornel' erbyn Mai 21ain. Cofia rŵan!

Cystadleuaeth Mis Mai

Enw.....

Cyfeiriad

Oed.....

LLIWIWCH Y LLUN GAN DDEFNYDDIO'R LLIWIAU PRIODOL



1 = Gwyrdd 2 = Melyn 3 = Glas 4 = Coch 5 = Brown 6 = Llwyd 7 = Oren

MURIAU

Mi'th welais di
drwy'r hollt yn llenni ffenast
fy mharlwr gorau.

Echnos, â'th gramen lwyd o gorff, ar bwys y Warws Fawr.
Neithiwr, hefo'th gefn yn rhan o fur yr orsaf bysiau, sy' wedi'i chau.
Heno, yn penlinio uwchben tomenni o boteli gweigion, yn y dym.

Ti oedd yno'n wastad,
â'r muriau moel a'th enaid
fel bys a maneg.

Chdi, â'th wefusau
yn un crynidod iasoer;
tuchan, sibrwd; malu'n deilchion
dy eiriau prin yn y Gymraeg.
Brathu dant ar fantach
heb falio'r un botwm corn
am dinc a thonc y traffig trefol,
na'r mynd a'r dwad
sy'n rhan o'r cyffro byw
a ffurfia gysgodion hir Cytir a'r Rhandir Mwyn.

Gynneu fach,
o glywed siren wyllt yr ambiwlans,
yn sgialu'n frysiog i ysbyty'r dref,
ni chyfroaist flewyn.

A 'doedd y dyn bach ar gongl y stryd,
â'i Feibl yn ei law,
yn mennu dim oll arnat,
na'r hen hogan bowdrog honno
yng nghefn y Crown a'r Prins
a'i choesa', a'i bronna', yn fwy na'i gwisg.

Onid gwell oedd llonyddwch concriid a bricsen lwyd;
ista yn dy gwman, a'th fyd mor gyfyng
â'r stwmpyn dyddia'-oed-o-sigarét ar wefus isa' dy geg;
dy dafod a fu gynt mor hoyw yn glyma' chwithig
ac wrth dy ystlys, labrador wedi'i glymu â chortyn?

Boed hindda, neu'n dywydd grifft,
yr un oedd dy eiriau cynnil,
'Ti, ydy' fy myd i, Siân fach.'

Siân, druan gi —
tamaid o fywyd yn hel mwytha',
â'i hasenna' bron i gyd yn y golwg.

A hithau'n swatio i'w gesail,
a llyfu'r briwia' ar ei wyneb.
Muriau'n llawn cerrig geirwon, a graffiti anwedus;
Moelni di-gysur; byd di-Kylie, Jason Donovan, a Jess;
cylch di-wên; cylch di-waith a di-gapel.

Muriau heb Sandra a Joyce o dudalen tri y *Sun*,
a'u noethni, yn hongian megis pegia' ar lein ddillad.

Muriau â'u godre'n 'nialwch o fudreddi papura' newyddion,
Y Faner, *Welsh Nation*, a'r *Star*, yn llawn ogle saim tatws sglodion,
a'r llygod mawr yn gweu drwy'i gilydd,
a chlecian eu dannedd meinion
gan yrru'r byd ar ffo.

Cracia', tylla' a phantia',
tunia' cwrw gweigion yn obennydd,
a'r sment yn gymysg â'r cen a'r mwsog.

Muriau â'u cysgodion yn chwillio'n ddyfal
am dorriad gwawr o'r newydd.

Seithenyn farw o fangre,
Cantre'r Gwaelod yw Cymru.

A fflach sydyn o oleuni
wrth i'r heddwes fynd heibio.

'Nos dawch, Georgi.'
'A Siân, P.C.'

'Prynn dŷ, cyfranna, frawd, i fywyd,
Hwn yw'r Banc sy'n cynnig to a ffenestri iti,'
yw'r geiriau dwys ar bosteri a ludiwyd i'r muriau.


Ond mae oerni'r nos
yn crebachu'r hyn sy'n weddill o gnawd ac esgyrn.

A minnau, Dduw Dad Dirion,
yng nghludwch fy mharlwr moethus,
yn sbecian â llyg'id slei bach, drwy'r llenni,
a'r gwres o'r twymyddion tanbaidd
yn chwalu dros feddalwch braf fy nghorff.

Ffugenw: Draw dros y Cytir a'r Rhandir Mwyn.

Cerdd ydyw a anfonwyd i Gystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod
Bontnewydd yn ddiweddar gan fardd o fro'r *Eco* sy'n dymuno aros
yn ddi-enw. Cafodd y beirniad, sef y Prifardd Ieuan Wyn, 'flas
arbennig' ar y gerdd hon, a chael ynddi ddiffuantrwydd a
chydymdeimlad wedi ei fynegi'n gywir'.

Ennill Trysor yn Llyfrgell Deiniolen



Enillodd Anne Marie Williams ail
wobr yng Nghynllun Trysor
Gwasanaeth Llyfrgell y Sir.
Cyflwynwyd tocyn llyfr iddi yn
Llyfrgell Deiniolen gan Hywel
James, Llyfrgellydd Plant y
Gwasanaeth Llyfrgell.

Dewiswyd yr enillwyr gan yr
awdures Emily Huws. Cynllun
ydyw hwn i annog plant i
ddefnyddio'u llyfrgell leol yn
rheolaidd. Wrth fenthyg llyfrau,
cânt stamp yn eu cardiau
aelodaeth a sticeri lliwgar i'w
casglu. Mae'n bosib i bob plentyn
sydd yn ymuno â llyfrgell yng
Ngwynedd neu'n defnyddio'u
llyfrgell leol i fod yn rhan o'r
cynllun.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872276

Cydymdeimlwn ag Arthur Evans a'r
teulu yn eu profedigaeth o golli eu
mam Mrs Davies, Terfyn.

Croeso gartref i Miss Megan
Humphreys, Cadnant, ar ôl ymweliad
a'r ysbyty. Hefyd i Mrs J. Hughes,
Oerddwr, ar ôl triniaeth yn Ysbyty
Gobowen. Da deall fod y ddwy yn
gwella.

Llongyfarchiadau i Beverley Ann
Roberts, Awelfryn, ar ei llwyddiant yn
yr arholiad Theori, Gradd 5. Disgybl
i Mrs L. Griffiths, Llanberis, yw
Beverley.

Diolch: Dymuna Megan Humphreys,
Cadnant, ddiolch am y caredigrwydd
a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad
yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri,
ac am ofal y meddygon, a phob un
— rhy niferus i'w henwi — y bu dan
eu gofal tra yn yr ysbytai, ac ar y
ffordd yno. Unigolion yn myned o
amgylch yn siriol a di-rwngach gan
wneuthur daioni — cyd-weithredu
hapus.

Diolch arbennig i'r Meddygon R. S.
Williams, ac H. L. Roberts, Meddygfa
Waunfawr a Llanrug am eu hymateb
parod a sydyn, a'u gofal ar ôl gadael
yr ysbytai; i gymdogion agos am eu
hymateb parod a sydyn hwythau; i'm
teulu a chyfeillion lu; i'r Parchn J.

Morris, W. O. Roberts a H. G.
Roberts.

Nid yw Duw yn cysgu — mae yn
fyw ac wrth y llyw gan ymsymud
yng nghanol bywydau dynion ym
mhob amgylchiad — a'r Crist fu'n
troedio llwybrau Nasareth gan
wneuthur daioni yn dal i gerdded ein
llwybrau ninnau gan ddefnyddio
dynion a merched i wneud ei waith.

Mae'n fywl Mae'n fywl!
Mae Crist yn fyw yn awr!
Ei gwmni gaf a'i glywed wna!
Ar ddrys daith y llawr;
Mae'n fywl Mae'n fywl!
I achub torf ddi-ri;
Os gofyn 'r wyt, 'Sut gwyddost ti?'
Mae'n fyw'n fy nghanol i.

Alfred H. Hackley
Cyf. E. H. Griffiths

Ennill Medal Gee

Llongyfarchiadau calonog i Megan
Humphreys, Tanycoed, a fydd yn
derbyn Medal Goffa Mr a Mrs
Thomas Gee, ddydd Iau, 23 Mai.

Cyflwynir medalau Gee i
aelodau hynaf yr Ysgolion Sul yng
nghyfarfod blyneddol Cyngor
Eglwysi Rhyddion Cymru (Adran
y Gogledd) yng Nghapel Lôn Swan,
Dinbych.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Mae'n rhyfeddol braidd fel mae dywediadau a daliadau y rhai a aeth o'r blaen yn cael eu gwireddu gan ddigwyddiadau cyfoes ac wrth gwrs brigo i'r amlwg. Fel esiampl fe soniai ein hynafiaid am yr 'hen Fawrth', ac ni byddai hwnnw yn myned allan hyd yn agos i ganol mis Ebrill. A ninnau yn gweld yr eira ar yr Elidir a'r Wyddfa a rhai o'r mynyddoedd eraill y dyddiau diwethaf hyn, oni theimlwn ein bod yn cael ein gorfodi i gredu nifer o'r pethau a ddywedai ein tadau, a hynny ar ôl sylwadaeth graff. Fe fuont hwy yn drachtio'n helaeth o ysgol profiad, ac ni allwn lai na dilyn eu hesiampl.

Eleni, wrth gwrs, mae hi'n flwyddyn cyfrifiad y bobl — y 'census' fel y'i gelwir. Ni allwn anghofio chwaith bod y Gwardwr wedi ei eni ar adeg cyfrif y boblogaeth. Golygai hyn bod rhaid i'r teuluoedd symud i 'gartref y llwyth' i bwrpas y cyfrifiad a Bethlehem Judea oedd y cartref i Joseph a Mair. Fe fu raid iddynt ffoi gyda'r bachgen Iesu i'r Aifft, ac aros yno nes ei bod hi'n ddiogel iddynt i ddychwelyd yn ôl; ond nid i Fethlehem chwaith, ond i Nasareth yn unol â rhag-hysbysiad y proffwydi. Rhaid oedd concro holl fwriadau Herod frenin, oedd bellach yn ofni am ei safle fel brenin ei genedl. 'Roedd ei greulondeb yn anhygoel, ac yn golygu fod pob plentyn bach o oedran neilltuol yn cael ei ladd yn ddjarbed. Nid oedd lle o gwbl i unrhyw fath o drugaredd.

Ardal yn mwynhau awelon y mynyddoedd yw Dinorwig, ac mae hyn yn ffafriol iawn i nifer o'r trigolion fyw i oedran teg. Nid yw hyn wrth gwrs yn golygu nad oes marwolaethau cynnar o gwbl yma chwaith. Y tro hwn fe aiff ein llongyfarchiadau yn fwyaf arbennig i'r ddwy chwaer Mrs Lizzie a Jenny Jones ar gyrraedd ohonynt eu penblwydd yn ddeg a phedwar ugain, ac o edrych ar ddarlun ohonynt a ymddangosodd yn y *Caernarfon & Denbigh Herald*, ni allwn lai na theimlo eu bod yn parhau i fwynhau bywyd i'r eithaf a ninnau ar hyn o bryd yn byw yn y nawdegau.

Yr ydym yn awr yn nhymor y Cymantfae Canu. Fe recordiwyd un Gymanfa Ganu yng Nghapel Coch, Llanberis i bwrpas y gyfres 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' gyda Mr Arwel Jones a'i gysylltiad â 'Hogia'r Wyddfa' yn arwain. Mae ef

yn adnabyddus i nifer sy'n dilyn rhaglenni'r cyfryngau. Gresyn nad oedd enw'r organydd yn y rhaglen nac eiddo'r ferch brysur a dawnus a lywiai'r cyfan.

Mewn cystadleuaeth i Ysgolion Cynradd Bangor, fe enillodd Arwyn Evans, Gwên-y-Wawr, Penrhos-garnedd, ŵyr i Mrs Katie Lloyd Hughes, y wobwr gyntaf ar gyfansoddi dau bennill ar y testun 'Gwell Yfory'. Fe gafodd Arwyn ei wobrwyo yn y Gadeirlan ym Mangor. Dyma'r ddau bennill:

Buaswn yn hoff iawn o weld gwell yfory,
Pob person drwy'r byd yn ysgwyd llaw —
Arweinwyr yn gwrando llais Duw yn llefaru,
Heddwch, brawdgarwch yn disgyn fel glaw.

Dim mwy o lygru a dinistrio fforestydd,
Pob nwy yn ddiogel i'r haenen uwchben,
Pob un yn cludo ei sbwriel mewn bagiau,
Gwell byd i ni, awyr las uwch ein pen.

Arwyn Evans (10 oed), Ysgol y Garnedd

Go dda yn wir, yntê! Enilled pob clod yn y dyfodol.

Er i'r ymdaro i bob ymddangosiad ddod i ben yn y Gwllff, eto fe deimlwn mai heddwch ansicr a geir yno. Fe erys rhai o'r problemau o hyd, a'r naill ochr yn drwg dybio amcanion y llall. Mae rhai y clywsom amdanynt yn cael eu cadw mewn caethiwed gorthrymus, a rhyw gyndynrwydd annifftiniol yn nacáu iddynt eu rhyddid — nifer ohonynt yn gwbl ddiniwed ar wahan iddynt fod mewn lle arbennig ar adeg arbennig — rhai ohonynt fel Terry Waite yno i'r pwrpas o sicrhau cymod rhwng pleidiau gelyniaethus. Fe anghofiwyd bellach beth oedd gwir achos yr holl gythrwfl, ar wahan, efallai i geisio rheoleiddio'r olew yn y parthau hyn. Mynn rhai wrth gwrs fforffedu dyfodol ein plant i'r wanc anniwall am elw. Cyd-ddealltwriaeth yn unig yw'r ateb i'r broblem.

Diolch: Dymuna'r efeilliaid, Mrs Lizzie Jones, 10 Bro Elidir a Mrs Jennie Jones, Buarth Newydd, ddatgan eu diolch i'r holl deulu, cyfeillion a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a blodau a dderbyniasant ar ddiwrnod dathlu eu penblwydd yn 90 oed ar 10 Ebrill eleni. Diolch o galon i bawb.

Y Ganolfan: Cynhelir Cyfarfod Blyneddol y Ganolfan ar nos Fawrth, 7 Mai am 7. Yn y cyfarfod hwn ceir adroddiadau ar sefyllfa bresennol y Ganolfan, ac hefyd bydd cyfle i ethol swyddogion ac aelodau newydd ar y pwyllgor. Apelir ar gymaint ag sydd

bosibl i fynychu'r cyfarfod pwysig hwn. Tra yn cyfeirio at y Ganolfan, hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r Cyngor Sir am ail adeiladu rhan o wal yr iard oedd wedi chwalu yn ddiweddar, ac i weithwyr Menter Fachwen am y gwaith twtio waliau ac ati oddi mewn i'r Ganolfan.

Arwydd Cyflymdra: Unwaith yn rhagor mae'r Cynghorydd Glyn Tomos wedi cael sicrwydd pellach gan Adran Syrfewyr Cyngor Sir Gwynedd y bydd arwyddion cyflymdra 30 milltir yr awr yn cael eu gosod i fyny ar y ffordd i mewn i'r pentref mor fuan ag sydd bosibl. Hefyd cafwyd yr un sicrwydd y bydd yr arwydd ffordd wrth y Ganolfan yn cael ei atgyweirio a'i osod i fyny mor fuan ag sydd bosibl. Hefyd mae'r Cynghorydd Glyn Tomos wedi gohebu â'r Cynghorydd Sir, Mrs P. Larsen, yn y gobaith y gellir dwyn pwysau pellach ar y Cyngor Sir i ddod allan gyda datganiad cyhoeddus pendant ynglŷn â pha bryd y maent yn bwriadu lleddu y gongl ar ben Gallt y Foel. Nid yw yn syndod bod y bobl leol wedi syrffedu a cholli pob amynedd gyda'r addewidion gwag sydd wedi dod o gyfeiriad y Cyngor Sir ynglŷn â'r mater yma dros y blynedd oedd diwethaf.

Hwyl Haf '91: Eleni cynhelir Hwyl Haf ar brynhawn dydd Sadwrn, 13 Gorffennaf yn yr Allt Ddu o 2 ymlaen. Unwaith eto 'rydym yn hyderus y cawn gefnogaeth dda gan bobl Dinorwig heb anghofio am ein ffrindiau o bentrefi cyfagos sydd yr un mor gefnogol. Er mwyn ceisio cychwyn ar y gwaith trefnu cynhelir cyfarfod yn y Ganolfan ar nos Lun, 20 Mai am 7. Felly os ydych yn barod i gynorthwyo gyda'r gwaith cofiwch ddod i'r cyfarfod.

Eglwys St. Mair: Dyma fydd trefn y gwasanaethau am fis Mai: cynhelir Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaidd am 3.45 ar 5 Mai. Yna ar y Sul canlynol cynhelir yr Wyl Gorawl yn Eglwys Dewi Sant, Glanadda, gyda Gwasanaeth y Plant am 2 a'r Gymanfa Ganu am 6.30 yr hwyr. Trefnir cludiant i'r gwasanaethau

hyn. Felly ni chynhelir gwasanaeth yn St. Mair ar y Sul yma. Yna ar 19 Mai cynhelir Cymun Teuluol am 10 gan mai y Sul yma fydd y Sulgwyn. Yna daw gwasanaethau'r mis i ben gyda Gwasanaeth y Gosber ar 26 Mai am 3.45.

Cofio Ddoe . . .

*Annwyl Olygydd,
Os yn deilwng i'ch papur, croeso i chwi arnynt. Daw atgofion am y dyddia' baricsaidd a'r geithio caled yn aml i'r co'. Fe erys ôl y cenedlaethau yn graith ar yr Elidir ac fe fydd y tyrbeins sydd yno heddiw wedi rhydu yn siwr i chi, cyn y gwelir symud ôl y dwylo sydd arni.*

Hwyl,

J. R. JONES (Brynsiencyn)

COFIO DDOE

Bûm innau'n un o'r rheini
a dynnai dorth o'r graig;
ni wyddwn beth oedd moethau
a phrid fy syml saig.

Oherwydd rhaib perchennog
a rhai stiwardiaid dall,
yn undyfn aeth y chwarel
a'i chau fu'n rhaid o ball.

Fe wawriodd dydd yr ocsiwn,
ar ei holl gelfi hi —
ond nid cyn taro'r morthwyl
ar amryw un fel fi.

RHYFEDDODAU

Am waith trydan Dinorwig,
fe geir sôn yn ddi-daw,-
y bydd hwnnw'n rhyfeddod-
am yr oesau â ddaw.

O roi coel ar dywysydd,
gallai'n hawdd fod yn ffaith,
yn ogystal â chadw
gwta ugain mewn gwaith.

Ond ar lethrau'r Elidir,
ceir rhyfeddodau sy'n fwy,
yn ôl dwylo y tadau —
ac fe erys yn hwy.



**ERYRI
ORGANIG**

LLANFAGLAN

Ffôn: C'fon 76905

Rhwng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaiith ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

**CEIR ELIDIR
LLANBERIS 870449**

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
**Caernarfon
5754**

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**
Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Ysgol Gwaun Gynfi

Cynhaliwyd Ffair lechyd lwyddiannus dros ben ar y 15, 16 a 17 Ebrill, yn yr ysgol. Daeth nifer luosog iawn i ymweld â'r Ffair a thystiodd pawb iddi fod yn un hapus a diddorol. Cafwyd amryw o siaradwyr yn trin a thrafod gwahanol agweddau ar iechyd yn cynnwys y Gwasanaeth Ambiwylans, Achub Bywyd, Coginio a Samplio Bywyd Iach. Daeth nifer arbennig o dda i'r dosbarth Erobics hefyd a gynhaliwyd ar ddwy noson. Cafwyd hwyl a phleser. Llwyddodd amryw o gynrychiolwyr y gwahanol adrannau bresennoli eu hunain yng ngwasanaeth o ddiolch y plant a phleser oedd cael eu cwmni. Bu'r Ffair yn un i'w chofio. Dyma ganlyniadau Clwb 100 am fis Ebrill — 1: Mrs J. Grindley, 12 Pentre Helen (7); 2: Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog (21); 3: Mr Ronald Roberts, 7 Rhes Fictoria (36)

Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru am fis Mawrth — £10: Mrs Jacqueline Jones, Buarth Beran; £8.50: Mr G. W. Jones, 9 Ffordd Deiniol. **Mis Ebrill** — £10: Miss M. R. Jones, Tan y Caerau; £8.50: Mr Albert Parry, 45 Pentre Helen.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar 19 Mawrth dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Trefnwyd prynhawn difyr ar ein cyfer gan Mrs Edna Coles, Mrs Dolly Brown, Mrs Jane Jones a Mrs Betty W. Davies. Gwesteion y te oedd Mrs Laura Williams, Mrs Jane Jones a Mrs Hannah J. Thomas. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jane Jones a'r enillydd oedd Miss Eileen Williams. Dymunwyd gwellhâd buan i Mrs Katie Griffiths.

Ar 4 Ebrill cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu'r Pasg. Cymerwyd rhan gan y chwiorydd canlynol: Mrs Jennie Williams, Mrs Alwen Jones, Mrs Jane Jones, Mrs Pat Evans, Mrs Eirlys Ll. Jones, Mrs Edna Coles, Mrs Dolly Brown, Mrs Hannah J. Thomas, Mrs Eve Braithwaite a Mrs Megan P. Morris. Carem ddiolch i ferch Mrs Edna Coles am gyfeilio i ni. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane C. Hughes, Mrs Katie Griffiths a Mrs Ellen Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Beti W. Davies.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys nos Fawrth, 2 Ebrill, dan lywyddiaeth Mrs Glenys Williams. Mr Hughie Jones, Rhes y Faenol oedd ein gŵr gwadd a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmni yn sgwrsio am y 'llais', hefyd dangosodd ei waith arlunio. Diolchwyd i Mr Jones gan Mrs Beti Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs Laura Pritchard a Mrs Nellie Pritchard. Enillydd y raffl oedd Mrs Eileen Hughes.

Eglwys Crist Llandinorwig: Yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaid, dydd Sul, 21 Ebrill, awdurdododd y Parch Tegid Roberts, ar ran yr Esgob, Mrs Beti Roberts, 7 Rhes Victoria, fel Ymwelydd Plwyfol. Bu Mrs Roberts yn dilyn cwrs hyfforddi arbennig a drefnwyd gan Gyngor Cyfrifoldeb Cymdeithasol yr Esgobaeth. Bydd y gwaith a wna yn awr yn y plwyf yn rhan o'r Weinidogaeth Leyg ac yn cynnwys ymweld â chleifion yn eu cartrefi a bod yn ddolen gswlth rhwng aelodau Eglwys Crist a'r Deon Gwlad a chlerigwyr eraill sydd â gofal dros y plwyf.

Mae gan Mrs Roberts gerdyn a bathodyn arbennig i'w harddangos i'r sawl y bydd yn ymweld ag o, felly chwi eglwyswyr yn Neiniolen, peidiwch â synnu os y cewch chi ymwelydd yn curo ar eich drws — Mrs Beti Roberts fydd yno o bosib wrth ei gwaith fel Ymwelydd Plwyfol. Dymunwn fel Eglwys bob bendith iddi gyda'r gwaith.

Enillwyr Clwb 200 y Clwb Pêl-droed: — £80: Llew Jones; £40: Charles Jones. **Enillwyr y raffl** — £100: Vernon Williams, 4 Pentre Helen; £75: J. Grindley, 12 Pentre Helen; £50: M. Morris, 93 Pentre Helen.

Diolchiadau:

Diolch i Mr James Grindley am y rhodd o £100 tuag at y tîm pêl-droed er cof am ei frawd Bobbie Grindley.

Dymuna Mrs E. Williams, 41 Rhydfadog, ddiolch o galon am y rhoddion a'r cardiau a dderbyniodd pan yn derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Mrs A. M. Morris, 4 Marian Terrace, ddiolch yn fawr iawn i'r plant, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion a'r llw cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed ar 3 Ebrill.

Dymuna Arthur a Meira, 17 Rhydfadog, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem.

Llongyfarchiadau i Elfed Morgan Morris, Llechwedd, Deiniolen ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd 8-10 oed yn Eisteddfod Bontnewydd eleni.



Cael hwyl ar 'Sgidadlo': Enillodd Jennie Lyn, Cartref, Rhes Cynfi, wobur arbennig am chwarae'r gêm 'Sgidadl' ar y rhaglen boblogaidd i blant, sef 'Hafoc'. Llongyfarchiadau Jennie.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, 2 Ebrill, cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan o dan lywyddiaeth Mrs Marian Williams. Cafwyd noson ddifyr gyda Mr David Morris, aelod o Ambiwylans Gwynedd, yn siarad am ddamweiniau yn y catref. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirian Jones a Mrs Glenys Williams ac enillwyd y raffl gan Mrs Marian Williams. Bydd y cyfarfod nesaf 14 Mai — noson yng nghwmni Mrs Pat Jones, Brynrefail, y V.C.O.

Cyngor Eglwys: Cynhelir gwasanaeth arbennig yn Eglwys Llandinorwig, am 7 o'r gloch, nos Lun, 13 Mai, i lansio Wythnos Cymorth Cristnogol 1991. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaeth dan arweiniad y Parchg John Pritchard. Yn ystod yr wythnos 13-18 Mai gwneir y casgliadau blynyddol o dŷ i dŷ tuag at Gymorth Cristnogol, a dymuna'r Cyngor dalu diolch ymlaen llaw am gefnogaeth hael y pentrefwyr.

Pwy yw pwy?



Dyma lun o ddosbarth ysgol o'r 'Central School Deiniolen' — Ysgol Gwaun Gynfi heddiw. Beth yw'r achlysur? Pwy ydynt? Pa flwyddyn? Dewch Mrs Hughes (yr athrawes) fe ddylech chi fod yn gwybod - beth am yr ateb?



A phwy yw y rhain tybed? Beth yw'r achlysur? Pa flwyddyn? Sylwch ar y ceiliog ar lin yr hen frawd ar y chwith. Na, nid Ffrancwyr ydynt! Daeth y llun o gartref yn Neiniolen ac mae'n siwr fod rhywun, yn rhywle, yn gwybod rhywbeth o hanes y llun.

YR ETHOLIAD

Yn Ebrill a Mai fe ddychwel y gog
I'n byddaru a'i deu-nod undonog
Nid oes croeso iddi ymhlith yr adar
Os yw yn gerddgar, mae'n hen sgwatiwr beiddgar.

Afraid yw i hon fel pwyntiau am dŷ
Mae gwas ganddi i ofalu am hynny
Bydd llawer Cynghorydd yn debyg i'r gog ddechra' Mai
Yn canu clodydd ei hun — a gwadu pob bai.

Pan ddaw Mai a chynhesach hîn
Bydd llawer o'r rhain yn crynu trwy'u tî
Deuant i'ch drws a cheisio'ch perswadio,
I'w hethol eto am gyfnod, cytuno neu beidio.

Gwyddoch amdanynt, er yn anweledig
Pan ddaw'r etholiad byddant ddigon amlwg a phwysig
Rhair cynghorwyr cyn hyned a Methusalem
Fel gelod yn dal ati yn ddigon di-glem.

Rhaid addef ei bod yn swydd i'w thrysori
I fynd efo siop neu dyddyn, a'r oriau yn handi
Nid oes raid gor-boeni am gyflwr eich ardal
Baw-cŵn, sbwriel, cyffuriau a thenantiaid di-ofal.

Os nad ydych yn siaradwr cyhoeddus ni fydd rhwystr
Medwrch Amenio mewn pwyllgor neu 'sgwennu llythyr

Hwyrach y bydd rhaid gadael cartra'
Fel dirprwy, peidiwch poeni fe gewch eich costa'.

Felly cofiwch os na fydd etholiad ym Mai
Waeth heb a chwyno — arnoch chi fydd y bai
Chwi bobl ifanc ymroddwch i wasanaethu'ch ardal
Onid gwell bod yn gynghorydd na'ch adnabod fel fandal

Gethin

Y DYDDIADUR

Mae fy serch ar y mynydd, ar foelydd fy ngwlad,
Lle cefais fy ngeni i arddel treftad;
Ynghanol y creigiau, mewn unigrwydd o hyd,
Mewn bwthyn gwyngalchog, cysgodol a chlyd.

'Roedd dyddiau fy iuenctid yn hynod o braf,
Mewn Cymreictod drwy'r gaeaf a chydol yr haf;
A dysgais yn ffanc i werthfawrogi yr iaith,
Penillion y delyn mewn 'steddfod a gwaith.

'Roedd canïadau y ceunant yn lleddf ar fy nglyw
Mwynheals gyfrinach ffordd natur o fyw;
Y ddefad mewn cysgod yn griddfan mewn poen,
Mewn gewyr, yn esgor yn geni yr oen.

Briallu ac eithin ar erwa'r ffridd,
Ac arogl y gwanwyn yn codi o'r pridd;
Cneifio'n yr hafddydd ynghanol y gwrës,
Aeddfeddydd yr hydref, a'r gaeaf yn nes.

Mae fy myd mor gyfoethog, ond nid gyda phrës,
Sef dyddiadur gan natur, popeth er fy lles;
Dyn ac anifail, a natur yn cydfyw,
A iechyd i addoli a pharchu fy Nuw.

JOHN V. MORRIS, Rhianfa, Clwt y Bont.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI

Disgwyli'r rhaglen yr Eisteddfod am eleni o'r wasg cyn diwedd Mai. Yn ôl yr arfer fe'i dosberthir yn rhad ac am ddim yn y siopau lleol, felly byddwch ar wylidwriaeth amdani.

Cofiwch neilltuo 25 a 26 HYDREF at y 'Steddfod a'i chefnogi hyd yn bosibl trwy eich presenoldeb, a chael mwynhau'r cystadlu brwd.

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Llongyfarchiadau i Lynwen A. Hamer, 11 Stâd Minffordd am lwyddo yn yr arholiad piano, gradd 2, gyda theilyngdod. Disgybl i Mrs Linda Griffiths, Y Felinheli, yw Lynwen.

Diolch:

Dymuna Bet, 'Lyndale', Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon i bawb, ymhell ac agos, am eu caredigrwydd tuag at Len ar ei benblwydd yn hanner cant. Diolch i Mrs Dilys Jones am ei chyfraniad at y noson yn Hafan Elan, ac i Betty a Sel am y wledd ym Meifod. Diolch i bawb.

Dymuna Gwilym D. Williams, Haulfan, 2 Ffordd Glanffynnon, ddiolch am y dymuniadau da a'r holl garedigrwydd a dderbyniodd gan ei deulu, cymdogion a chyfeillion tra yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dod adref. Fe garai hefyd ddiolch am y cydymdeimlad a estynnwyd iddo yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn ddiweddar, ac am y rhoddion tuag at Eglwys Caerhun, ger Bangor. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Hugh R. Hughes, Cwawia (Cremlyn, Bethel gynt) ddiolch o galon i'w berthnasau a chyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei benblwydd yn bedwar ugain oed.

Ysgol Gynradd Llanrug

Ymweliadau: Bu Safon 2 yn cymharu cyfleusterau cartrefi heddiw â chartrefi cynnar iawn, pan gerddasant i weld y cytiau crynion yng Nglasgoed, Penisarwaun. Mwynhaodd Safon 4 fore yn arwerthiant anifeiliaid yn y Gaerwen. Cafodd pob un ohonynt siars i gadw eu dwylo yn llonydd rhag dod yn ôl i'r ysgol wedi prynu heffar neu darw! Aeth aelodau o Glwb Sbondonics i Ysgol Brynrefail i weld sioe o'r enw 'Dihrod' wedi ei threfnu gan y Cyngor Llyfrau. Daeth Mr Percy Japheth, Trefor, at y Babanod Canol ac Uchaf i ddangos ei longau mewn poteli. Roedd y plant wedi rhyfeddu at gywreindeb y grefft ac rydym yn brysur yn casglu pob math o boteli. **Yr Urdd:** Amser da iawn, oedd ymateb plant Safon 3 a 4 a fu am benwythnos yng Ngwersyll Glanllyn. Cawsant gyfle i brofi yr holl weithgareddau diddorol sydd yno. Cafodd ambell i un drochfa wrth ganwio ac roedd un yn fwd o'i goryn i'w sawdl. Ond er yr holl chwarae caled ymddengys mai ychydig o gwsg oedd eu hangen arnynt! Diolch

i Mr Gwynfor Owen a Mr Dafydd Idriswyn Roberts am fynd hefo'r plant. Llongyfarchiadau i grŵp o enethod o Safon 3 am ddod yn drydydd am wneud collage yng nghystadleuaeth gwaith llaw yr Urdd. **Chwaraeon:** Mewn gornest bêl-droed 5-bob-ochr yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon, daeth llwyddiant i ran dau dîm, y naill yn bedwerydd yng nghynghrair A, ar llall yn drydydd yng nghynghrair B. Da iawn hogia. Bu'r tîm bêl-rwyd yn cystadlu ym mhencampwriaethau Gwynedd. Ysgol Deganwy a gurodd grŵp Llanrug a hwy hefyd enillodd y bencampwriaeth.

Plaid Cymru

Roedd Phyllis Ellis a Gwyn Jones wedi paratoi cwestiynau arbennig o dda ar gyfer y Cwis a gynhaliwyd nos Fercher, 17 Ebrill, yn y Sefydliad Coffa. Daeth aelodau o ganghennau Bethel a'r Waunfawr atom a rhoddwyd croeso iddynt gan Phyllis Ellis. Rhannwyd y gynulleidfa yn dri thîm, a'r buddugwyr oedd Tim A gyda Mary Vaughan Jones, Waunfawr, yn gapten arnynt. Rhoddwyd y raffl gan Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, a'r enillydd oedd Gwyn Jones.

Enillwyr y Clwb Cant oedd — Mawrth: 1, Helen Parry, Morawel, Ceunant; 2, Berwyn Hughes, 34 Glanffynnon, Llanrug. Ebrill: 1, Frank Green, Anedd Wen, Pontrug; 2, John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

Trefnir Helfa Drysor ar gyfer nos Fercher, 15 Mai, i gychwyn am 6.30 o'r gloch o Ysgol Brynrefail. Y trefnwyr yw Mrs Marian McGuinness (ffôn Caernarfon 3986) a Mrs Ceinlys Roberts (ffôn Caernarfon 2853) a bydd y naill neu'r llall yn barod i dderbyn eich enwau gyda'ch dewis o fwyd erbyn 10 Mai, os gwelwch yn dda. Gobeithiwn weld nifer dda ohonoch ar y noson. Bydd croeso i ffrindiau ac aelodau. Cofiwch y dyddiad **15 Mai**.

Capel Mawr: Llongyfarchiadau i'r 14 o blant yr Ysgol Sul a ddysgodd y gwaith ar gyfer yr Arholiad Llafar. Llongyfarchiadau hefyd i'r aelodau a gymerodd ran yng nghystadleuaeth pêl-rwyd a phêl-droed i Ysgolion Sul ym mis Ebrill, a diolch i aelodau'r Ysgolion Sul eraill a ymunodd â rhai 'or timau.

Roedd gennym dri tîm pêl-rwyd a

ARVONIA HOLIDAYS



Tîm pêl-droed yr Ysgol yn eu dillad newydd — rhodd gan Fysiau Arfon.

thri tîm pêl-droed 5-bob-ochr a gwnaethant yn arbennig o dda. Cyrhaeddodd un tîm pêl-rwyd dan 14, ac un tîm 5-bob-ochr dan 11 y rowndiau cyn-derfynol, a llwyddodd y tîm 5-bob-ochr dan 14 i ennill eu cystadleuaeth hwy. Da iawn pawb a gymerodd ran, a diolch o galon i Dafydd Arfon Jones a Selwyn Lloyd am ofalu am y timau pêl-droed ac i'r

rhieni am gludo'r plant yn ôl ac ymlaen.

Bydd y trip Ysgol Sul eleni yn mynd i Butlins ar ddydd Sadwrn, 6 Gorffennaf. £3 yr un yw'r pris mynediad a £1.50 yr un am y bws. Telir am docynnau bws y plant gan yr Ysgol Sul. Gellwch archebu tocynnau oddi wrth athrawon yr Ysgol Sul.

Slot Sadwrn

Slot Sadwrn yw'r sioe haf newydd sbon danlli fydd ar sgrîn S4C bob bore Sadwrn rhwng 9.30 a 11.30, o 11 Mai hyd 14 Medi. Ynddi bydd gemau a chystadleuthau o bob math, cartŵns, gemau fideo, sgysiau ffôn, gwestai arbennig, grwpiau pop byw, eitemau gwyrdd a llawer, llawer mwy.

Fe hoffai'r cyflwynwyr, Gaynor, Nia a Daniel, glywed gennych. Ffoniwch yn ystod y rhaglen neu ysgrifennwch os oes gennych **unrhyw beth** i'w ddweud ar **unrhyw bwnc**, neu os am yrru neges arbennig at ffrind neu'r teulu.

Os dangosir eich llun neu'ch llythyr ar y rhaglen, fe gewch Becyn Slot Sadwrn yn anrheg. Beth amdani?

Dyma'r cyfeiriad: Slot Sadwrn, Bocs 4000, Caerdydd CF5 2XT.

Bydd rhai o'r rhaglenni yn sioeau teithiol a darlledir Sioe Sadwrn, 8 Mehefin, o'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

Priodas: Estynnwn ein llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Tegwen a Dilwyn Morris ar eu priodas yng Nghapel Cysegr, Bethel, 23 Mawrth. Maent yn gwneud eu cartref ym Mryn Glas. Croeso cynnes Tegwen a Dilwyn i Ceunant.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Brynley Pritchard, Glasfryn, ar ei briodas â Aleen Kees o Gaernarfon. Maent yn ymgartrefu yng Nghaernarfon.

Llongyfarchiadau i Dafydd E. Jones, Gwelfor, ar ei ddywedd i Delna Hale o Castleford, Pontefract.

HWB I'R DYSGWYR

Diolch i John Clark am gysylltu â ni ar ran Cymdeithas y Dysgwyr. Mae'r noson sydd wedi ei threfnu (gw. isod) yn haeddu pob cefnogaeth. Yn ôl John, 'Nod y noson yw rhoi hwb i ddysgwyr yr ardal i ddal ati i feistrioli'r iaith yn yr un modd â John Gillibrand'.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Cydbroeco'r wyddfa
yn cyflwyno

**Sgwrs gan Ddysgwr y Flwyddyn
Y Parchedig John Gillibrand**

Neuadd Goffa Llanrug

am 7.30, Nos Fawrth, Mai 21ain

Mynediad am ddim

CROESO I BAWB

— yn siaradwyr Cymraeg a dysgwyr

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd Bentref: Aeth pedair geneth i dreulio penwythnos yng Nglanllyn, 19-21 Ebrill. Diolchir i Rhian Price Williams am ofalu amdanynt. Dymuniadau da i Sioned a Nia Lewis a'r Parti Deulais dan 15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nhâf Elai.

Diolchir am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd tuag at gostau cludo y plant i lawr i'r Eisteddfod. Bydd y pwyllgor yn ddiolchgar iawn am unrhyw gefnogaeth tuag at godi'r arian. Diolch i Mrs Jean Jones, Bryn Tirion, am elw'r parti 'Impressions'. **Cydyndeimlo:** Ein cydyndeimlad dwysaf â Mr Richard Jones a'r teulu, Heather Bank, wedi marwolaeth mam Mr Jones.

Gwellhâd: Anfonwn ein cofion unwaith eto y mis hwn at ffrindiau sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty. Gobeithio eich bod chwi Mrs Jennie May Jones, a Mr Ron Hughes, yn well wedi'ch triniaethau ym Mangor a Chaerdydd. Ein cofion hefyd atoch chwithau Mrs Percy Williams, Mrs Nellie Roberts, Mrs Dorothy Parrot a Huw Thomas — da clywed eich bod yn gwella. Adferiad buan i unrhyw un arall hefyd sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Mr a Mrs Richard Jones, Heather Bank, ddatgan eu diolchgarwch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam Mr Jones.

Dymuna Hughie Williams ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, a phob arwydd o wir garedigrwydd yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty ac wedi dychwelyd adref.

Diolchir hefyd i'r caredigion fu'n brysur yn plygu'r Eco y mis diwethaf a hithau ar fyr rybudd ac yn ystod gwyliau. Diolchir am gael defnyddio Neuadd yr Eglwys.

Llongyfarchiadau: Balch ydym fel pentrefwyr o longyfarch Arwel Jones, Pant Hywel, awdur llyfr newydd a lansiwyd nos Fercher, 3 Ebrill, mewn noson o adloniant a bwffe yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. 'Y Darans' yw enw'r llyfr ac mae'n olrhain hanes y gêm bêldroed yn Llanberis a thalp o hanes y gymdeithas yn Nyffryn Peris rhwng 1890 a 1990. Llongyfarchiadau mawr Arwel.

Pob lwc: Y mae tymor yr arholiadau bondigrybwl wrth y drws unwaith yn rhagor. Pob dymuniad da a phob llwyddiant i bob un ohonoch sy'n sefyll arholiadau'r Coleg, TGAU a Lefel-A yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ysgol Sul Bosra: Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr, Cylich Deiniolen a Llanberis, ym Mosra eleni. Roedd y capel dan ei sang yn y pnawn a chafwyd eitemau hyfryd gan y plant bychain, ieuainc a hŷn. Gyda Mrs Glenys Griffiths, Bethel, yn arwain cafwyd cymanfa ganu ardderchog am chwech y nos. Gan ein bod fel Cymry yn dathlu dau-canmlwyddiant marw William Williams, Pantycelyn eleni, canolbwyntiwyd ar ei emynau mawreddog ef. Fe'u canwyd gydag arddeliad. Cafwyd eitemau gan Gôr Clychau'r Grug, Llanrug.

Cymerir rhan gan aelodau'r Ysgol Sul yng Nghymanfa'r Methodistiaid bnawn Sul, 29 Ebrill, yng Nghapel Seilo, Tregarth. Bydd y plant yn talu teyrnged i William Williams, y Pêr Ganiedydd. Diolchir i Mrs Elizabeth Jones am drefnu'r bws, ac i'r holl athrawon am eu gwaith diflino gyda'r plant. Bydd yn rhaid i ni drefnu trip iddynt ar ôl yr holl ymdrech yma — ble gawn ni fynd eleni tybed?

Eglwys Santes Helen

Y Ffestri Flynyddol: Cynhaliwyd y Ffestri Flynyddol am 7 o'r gloch, ddydd Llun, 8 Ebrill, o dan gadeiryddiaeth y Deon Gwlad, y Parch D. Noel Jones. Derbyniwyd y fantolen ariannol am y flwyddyn 1990 ac ail etholwyd y canlynol i'w swyddi yn y plwyf — Wardeiniaid: Mrs Roberta Griffith a Mr D. H. Lewis; Ysgrifennydd y Cyngor Plwyfol Eglwysig: Mrs Ann Paterson a'r Trysorydd: Mrs Mary Davies.

Gŵyl Gorawl Eryri: Fel rhan o'r gwaith gan yr Ysgolion Sul at yr Ŵyl eleni bu'r plant yn paratoi cywaith ar y thema 'Diolchgarwch'. 'Roedd y gwaith gorfenedig yn werth ei weld. Canmolwn y plant a'r athrawon am yr ymdrech. Diolchwn hefyd i Miss Heather Jones, Gors, Brynrefail, am ddod i wrando ar y plant yn adrodd y darnau yr oeddynt wedi eu dysgu ar gyfer yr Ŵyl Gorawl.

Ysgol Tan y Coed

Yn dilyn gwyliau'r Pasg dychwelodd y plant yn barod i adrodd eu gwaith dysgu noddedig. Roedd pawb wedi dysgu eu gwaith yn dda, a braf yw

cael adrodd fod y marciau a'r canlyniadau yn uchel iawn. Yn awr apeliwn am gael yr arian noddi i fewn cyn gynted â bo'r modd er mwyn cael cyfri'r cyfanswm. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

Dechreuodd plant safon 3 a 4 gyfres o wersi diogelwch ar y ffordd fawr yn ddiweddar. Mr Dafydd Edwards, o Adran Diogelwch y Ffyrdd, sy'n hyfforddi, a dymunwn pob llwyddiant i bawb sy'n cymryd rhan.

Fel rhan o'u thema ar y sêr a'r gofod, gwahoddwyd Mr Selwyn Griffith i'r ysgol gan ddosbarth Mrs Thomas. Darllenodd Mr Griffith un o'i gerddi am y gofod i'r plant ac yna cawsant gyfle i'w holi am ei gerddi, ac i gyd-gyfansoddi penillion gyda Mr Griffith. Yna, cawsant gyfle i weld y goron. Roedd hyn yn wledd o brofiad, a hoffwn ddiolch i Mr Griffith am ymuno â ni ac am fod mor barod i helpu.

Derbyniodd aelodau Clwb Sbondonics wahoddiad i fynd i Ysgol Brynrefail i weld Sioe Sbondonics a oedd yn seiliedig ar gyhoeddiadau Cymraeg. Dychwelodd pawb wedi cael mwynhad mawr. Diolch yn fawr i bawb ym Mrynrefail am eu croeso.

Cafwyd ymateb ardderchog gan blant yr ysgol i apêl gan Ysgol Brynrefail i'w cynorthwyo i gasglu dillad a phlancedi i blant ac oedolion Kurdistan. Roedd y cyntedd yn llawn o sachau du yn orlawn o gyfraniadau. Diolch i bawb am eu haelioni.

I gloi, roedd pawb yn yr ysgol wedi cynhyrfu yn ddiweddar. Y rheswm? Gwelwyd dechrau ar glirio'r tir ar safle'r ysgol newydd. Hir yw pob ymaros, ond mae pawb yn gallu gweld golau ar ddiwedd y twnel yn awr.

Yr Ysgol Feithrin: Cafodd plant bach yr Ysgol Feithrin fore wrth eu bodd, fore lau, 25 Ebrill, pan aethant am drip i'r Sŵ Fôr ym Mrynsiencyn. Roedd dychmygu bod o dan y dŵr gyda'r pysgod amryliw yn brofiad bythgofiadwy.

Mae'r plant yn disgwyl yn eiddgar i weld y blodau haul a blanwyd, ac eisoes mae cryn ddadlau ynglŷn â phwy fydd yn llwyddo i gael y talaf! **Pwyllgor y Neuadd:** Fe ddywedwyd wrthym am gadw llygad am y Jac Codi Baw y mis diwethaf. Ydi, mae o wedi cyrraedd ac eisoes wedi chwalu a malu'r drain a'r mieri ar safle yr Ysgol Gymunedol Newydd, yn ymyl Bryntirion. 'Hir yw pob ymaros', ond gyda 'Dyfal donc', ffyddloniaid y pwyllgor Neuadd a ymlafniodd ers blynyddoedd i gael

Neuadd i bentref Penisarwaun fe 'dorrwyd y garreg', ac mae Ysgol Gymunedol newydd ddeniadol wedi'i chychwyn. Do, fe ymdrechwyd ymdrech deg.

Bydd yn rhaid parhau a'n hymdrechion i godi arian ac felly mawr hyderwn y cawn yr un gefnogaeth glodwiw i'r gweithgareddau a'r Clwb Cant i'r dyfodol.

Nos Wener, 26 Ebrill, yn Neuadd yr Eglwys, am 6.30 p.m. fe gynhaliwyd Noson Gymdeithasol i dynnu'r Raffl Wanwyn, gydag eitemau gan aelodau'r Urdd. Bydd elw'r raffl yn mynd at y Neuadd a rhoddir elw'r noson tuag at gostau cludo plant yr Urdd i Eisteddfod Tâf Elai. Dymunir pob llwyddiant iddynt.

Dymuna'r pwyllgor anfon eu cofion annwylaf at Hughie Williams, un o ymddiriedolwyr y pwyllgor Neuadd. Gobeithio eich bod yn gwella Huw ac rwy'n siwr eich bod yn falch o ddeall fod yr Ysgol a'r Neuadd wedi cychwyn. Roedd Huw yn un o'r ymddiriedolwyr o'r pwyllgor Neuadd cyntaf yn y pentref.

Cynhelir pwyllgor ar y cyd â'r Pwyllgor Carnifal, nos Lun, 29 Ebrill, er mwyn ceisio trefnu Carnifal ar gyfer yr haf.

Pob dymuniad da: Pob bendith i Gwynfryn Williams, Trem Cynfi, Waun, a ddathlodd ei benblwydd yn 21 oed yn ddiweddar. Dymuna ef ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar yr achlysur arbennig hwn.

Pob bendith i tithau, Rhian, Careb, Bryn Eglwys, ar achlysur dy benblwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Croeso: Estynnir croeso mawr i Mr Bob Owen, Cae Corniog Bach, i stâd Llys y Gwynt. Rwy'n siwr y byddwch wrth eich bodd yno.



Clywed fod na beiriant golchi ym Mhenisarwaun yn gweithio ofyrteim. Y Bwrdd Dŵr yn gosod peipiau rhywle i gyfeiriad y Waun a mêt yn mynd yno i fusnesu. Mi slipiodd yn do a baeddu ei drowsus. Aeth adre i newid a mynd yn ei ôl. Myn dian i, os na ddigwyddodd yr un peth wedyn yn union. Tri trowsus glân mewn un diwrnod! Da bod y Bwrdd Dŵr yn mentenio'r peipiau 'tydi?


**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

Am bob math o
WYDR wedi'i
**DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.**
cysylltwch â

**Barrys
GLASS**



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

**CARPEDI
GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

Dydd Sul, 10 Mai, am 10.30 a.m., yng Nghanolfan Waunfawr bydd y Gymdeithas Karate Kokoro Shukokai, dan nawdd Ysgol Yrru 'Ace' Arfon, yn cynnal eu pencampwriaethau blynyddol rhwng y Clybiau.

Bydd cystadlaethau Kumite (ymladd) a Kata (ffurf) yn ogystal ag arddanogsiad o 'dorri Noddedig'.

Y clybiau fydd yn cystadlu yw Llanrug, Porthmadog, Blaenau Ffestiniog, Chwillog, Llandudno, Pwllheli a Thrawsfynydd.

Y dyfarnwr swyddogol yw Kevin Siddall, pedwerydd Dan Shukokai. Tâl mynediad, wrth y drws: Oedolion £1.50; plant 75c. Darperir lluniaeth.

Pencampwriaethau Karate yn y fro



RHODDION

£5.50: Mr P. W. Williams, Corby; Mrs B. Owen, Pwllheli; Mrs McCarthy, Childwall.

£5.00: Teulu 'Noddfa', Llanberis; Mr a Mrs G. Roberts, Fron Oleu, Llanberis; Colin a Val, Glan y Don, Stryd Fawr, Llanberis; Mrs Alwena Williams, Glanrafon, Wern y Wylan, Biwmares; Heather Jones, Llanberis; Mr Gwilym D. Williams, 2 Ffordd Glanffynnon, Llanrug; Mrs J. Williams, Morfa Bychan; Bessie Ellis, Cremlyn, Bethel; Stanley a Mary Griffiths, Tre'r Gof, Bethel; Mr a Mrs Christianson, Tŷ'r Capel, Bethel.

£3.50: Mr E. C. Rowlands, Little Sutton; Mrs Helen Francis, Caer; Mr J. E. Williams, Bishop Auckland; Mr Meurig Owen, Llundain; Mr Alun Williams, Waunfawr; Mrs H. Evans-Munro, Corby; Mrs Sidebotham, Stockport; Mrs Edwards, Stone, Swydd Stafford.

£3.00: Mr Owen Jones, Llangefni; Mrs Mair Jones, Ogwen, Llanrug; Dienw — Crawia; Alvona Jones, Prestatyn.

£2.50: Miss M. Griffith, Caerhun. £2.00: Mrs E. Jones, Lyndale, Llanrug; Mr a Mrs Taylor, Baladeulyn, Dôl Erddi, Waunfawr; Jennie Jones, Buarth Newydd, Dinorwig; Lizzie Jones, 10 Bro Elidir, Dinorwig; Mrs E. Williams, 41 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu, Deiniolen; Mr a Mrs A. W. Rowlands, 17 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs A. M. Morris, 4 Marian Terrace, Deiniolen.

£1.50: Mrs H. T. Owen, Caerdydd. £1.00: Mr a Mrs Hughie Jones, Heather Bank, Penisarwaun.

Darlith Wyddonol Yr Eisteddfod Genedlaethol – Cysylltiad Lleol

Anaml y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymhel â'r sêr er y gwelir amryw o sêr y cyfryngau torfol yn cerdded o gylch y maes o bryd i'w gilydd, ond sêr, neu yn hytrach sêr gwib — mae'r peth yn anghredadwy bron!

Dyna, fodd bynnag, fydd testun y Ddarlith Wyddonol a draddodir gan yr Athro Iwan Prys Williams o Goleg y Frenhines Mary a Westfield, Prifysgol Llundain, yn ystod wythnos yr Eisteddfod ym Mro Delyn yn Awst. Hwyrach y daw'r beirdd i ddeall y cyfeiriad yn soned anfarwol R. Williams Parry i'r llwynog ychydig yn well o'i glywed.

Mae i'r darlithydd achau eisteddfodol gwyh. Mab yw i'r diweddar Barchedig I. Bryn Williams, Gyffyllog, ei fam yn feirniad eisteddfodol a'i chwaer Bethan Bryn yn delynores ac arweinydd partïon cerdd dant. Ac oes angen cyflwyniad i fyd y beirdd, pa well na datgelu ei fod yn gefnder i Harri Gwyn.

Yn y Gronant, nepell o'r Eisteddfod eleni, y'i ganwyd, ond symudodd y teulu i Ddinorwig

pan oedd yn bedair oed. Yn yr ysgol gynradd leol yno, a wedyn yn Ysgol Brynrefail, y cafodd ei addysg gynnar, ond yn Ysgol Ramadeg Dinbych ar ôl i'r teulu fudo i Gyffyllog y cafodd ei lefel A. Aeth oddi yno i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, i astudio am radd Dosbarth Cyntaf mewn mathemateg. I Goleg Brenhinol Holloway, Prifysgol Llundain, yr aeth am ei Ddoethuriaeth, gan

raddio mewn Seryddiaeth yn 1963.

Bu'n darlithio ym Mhrifysgol Reading hyd 1971, ac aeth oddi yno i fod yn Ddarllenydd yng Ngholeg y Frenhines Mary cyn ei ddyrchafu'n Athro yno yn 1987.

Bu'n Is-lywydd y Gymdeithas Seryddol Frenhinol, ac yn aelod o Bwyllgor Cenedlaethol Prydain ar Ymchwil y Gofod am dair blynedd o 1986. Bu'n Gadeirydd Pwyllgor y Deyrnas Unedig i astudio Comed Halley, ac yn aelod o'r grŵp rhyngwladol oedd yn cynllunio astudiaeth o'r gomed. Gobeithia deithio i'r Ariannin fis Gorffennaf eleni i gynhadledd dair-blyneddol y Gymdeithas Seryddol ryng-genedlaethol.

Rhywle yn y gofod mae man-blanced 3634 yn troelli. Enwyd hi yn Iwan er anrhydedd iddo yn 1989.

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★ 28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★ 2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★ Gwres canolog llawn
- ★ Sustem ddiogelu rhag tân
- ★ Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★ Sustem alw nyrs
- ★ Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★ Lle bwyta mawr
- ★ Aros cyfnod hir/byr
- ★ Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★ Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★ Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★ Coginio cartefol
- ★ Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★ Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

OSMOND SHAW DEINIOLLEN



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu
★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth
Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

GAYNEY GRIFFITHS

y gantores o Nant Peris

Gan mlynedd yn ôl byddai enw Gayney Griffith wedi bod yn gyfarwydd iawn i bobol y fro. Efallai fod rhai o ddarlennwyr yr *Eco* yn cofio eu rhieni neu eu taid a'u nain yn adrodd hanesion am y gantores enwog o Nant Peris. Byddai llawer wedi ei chlywed yn canu ac wedi eu swyno gan ei llais soprano peraidd.

Ganwyd Gayney ym 1850 ac fe'i magwyd yn y Weirglodd-ddu, y bwthyn cyntaf ar y dde wrth fynd i'r Nant o gyfeiriad Llanberis. Nid ydym yn gwybod llawer o feithiau am ei phlentynod wrth droed yr Wyddfa, ond yn fwy na thebyg byddai ei theulu a'i chymdogion wedi sylweddoli fod gan Gayney lais canu yn ifanc iawn. Yn sicr, erbyn ei harddegau byddai'n amlwg fod Gayney yn berchen dawn canu arbennig. Mwy na thebyg y byddai wedi datblygu diddordeb a phleser drwy ganu yn y capel ac eisteddfodau yn yr ardal gyfagos. Yn ôl y rhai a oedd yn ei chofio, aeddfeddodd Gayney yn ferch ifanc dlos a thal.

Yn y cyfnod Fictoraidd yng Nghymru, roedd cerddoriaeth bron yn gwbl absennol o'r ysgolion. Felly, mae yn fwy o gamp fyth fod Gayney wedi ei derbyn i Adran Gerdd Coleg Prifysgol Aberystwyth tua 1878. Dim ond cerddorion ifainc brwd a ymunodd â'r Adran Gerdd o dan Yr Athro Joseph Parry, Pencerd America. Gan fod cymaint o alw am astudio o dan yr Athro Parry, gosodwyd Arholiad Mynediad Cerddoriaeth ar gyfer darpar-fyfyrrwyr. Yn wahanol i adrannau eraill y Coleg, roedd yn bosib ymuno â'r Adran Gerdd heb orfod astudio pynciau eraill. Roedd y cwrs yn gymysgedd o'r academiaidd a'r ymarferol gyda phwyslais ar feithrin y llais canu, chwarae'r piano a'r harmoniwm, ac astudio ffurfiau cyfansoddi. Caniateid i ferched ymuno â'r Brifysgol am y tro cyntaf yn 1874 i astudio yn Adran Yr Athro Parry gan ei bod yn amhosib ffurfio côr cymysg heb leisiau benywaidd!

Yn hanes cynnar y Brifysgol nid oedd grant na chymorthdal ariannol ar gael i fyfyrwyr. Felly, sut ddaru myfyrwyr o gefndir cyffredin, fel Gayney, ymdopi â'r costau ariannol o fynychu'r coleg? Gan fod yr Athro Parry wedi dychwelyd i Aberystwyth o'r America yn 1874 i geisio gwneud yn iawn am ddiffyg hyfforddiant cerddorol y Cymry, roedd ef yn deall yn iawn drafferthion ariannol ei ddarpar-fyfyrrwyr. Daeth dros y broblem drwy drefnu budd-gyngherddau, neu 'benefits concerts'. Byddai enw Joseph Parry yn denu cynulleidfau eang led-led Cymru. Yn ogystal sefydlwyd ysgoloriaethau cerddorol er cof am Ieuan Gwyllt, y cerddor a fu farw yn 1877, a Mynyddog, awdur geiriau'r opera 'Blodwen' a fu farw yn 1878. Aeth elw cyngherddau arbennig at achos y myfyrwyr. Yn sicr, dyma sut y galluogwyd Gayney i fynd i'r coleg. Golygai hyn aberthu ei gwyliau Pasg a haf er mwyn teithio led-led Cymru i gynnal nosweithiau cerddorol.

Roedd mwyafrif helaeth y myfyrwyr yn deyrngar i'r Athro Parry. Dilynent ef o gyngerdd i gyngerdd dros gyfnod o bum mlynedd. Y cyfnod hwn oedd uchafbwynt ei yrfa a daeth yn adnabyddus fel prif gerddor y Cymry. Sefydlodd yr Athro y patrwm o gynnal tua phedair cyngerdd y flwyddyn, gyda tua deg wythnos o baratoi rhyngddynt. Roedd pwyslais yr Athro Parry ar berfformio'r gweithiau clasurol a'r gweithiau Cymreig gan gyfansoddwyr cyfoes. Ar ddechrau tymor yr hydref 1877 cynhaliwyd

'Mozart Night' yn y Neuadd Ddirwestol, Aberystwyth. Dyma'r cyngerdd gyntaf mewn cyfres gyda'r elw yn mynd tuag at sefydlu Ysgoloriaeth Gerddorol Aberystwyth. Dilynwyd 'Mozart Night' gyda 'Handel Night', ac yn y blaen.

THE PAVILION, CARNARVON, SATURDAY, MAY 24TH, 1879, TO COMMENCE AT FIVE O'CLOCK.

GRAND PERFORMANCE IN COSTUME OF DR. JOSEPH PARRY'S WELSH OPERA "BLODWEN."

ARTISTES:—			
BLODWEN (A supposed Orphan Child)	..	..	Miss HATTIE DAVIES.
ELLEN (Daughter of Lady Maelor)	..	..	Miss GAYNEY GRIFFITH.
LADY MAELOR (of Maelor Castle)	..	..	Miss JENNIE WILLIAMS.
SIR HOWELL DDU (Knight of Snowdon Castle)	..	..	Mr THOMAS EVANS.
THE MESSENGER OF LADY MAELOR	..	..	Mr WILLIAM DAVIES.
A SOLDIER (From the Army of King Henry the 8th)	..	..	Mr SALISBURY.
A MESSENGER OF SIR HOWELL	..	..	Mr JOHN WILLIAMS.
A MONK	..	..	Mr LUCAS WILLIAMS.
IOLA (A Bard)	..	..	
RHYS GWYN (An Old Welsh Hero)	..	..	
ARTHUR (A Welsh Warrior)	..	..	

CHORUS:—
THE ERYRI CHORAL UNION (120 VOICES.)
WITH
FULL ORCHESTRAL ACCOMPANIMENT

From Gloucester, Wrexham, Birmingham, Bristol, &c.

PIANOFORTE:—MR D. D. PARRY, ORGANIST, BETHESDA.

CONDUCTED BY THE COMPOSER.

Admission.—Chairs (Reserved), 4s.; First Seats, 3s.; Second Seats, 2s.; Third Seats, 1s. Plan of the Hall, &c., at Mr M. T. MORRIS, Liver Establishment. Particulars of Railway Arrangements from Bangor, Llanberis, and Nantlle, will be hereafter published. X. 2939—H.

Er nad ydym yn sicr pa bryd yn union yr ymunodd Gayney â'r Adran Gerdd, gwyddom iddi fod yno ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd newydd yn Ionawr 1878. Cynhaliwyd cyngerdd ar nos Fawrth, 5 Mawrth, yn y Neuadd Ddirwest, a'r elw yn mynd at yr ysgoloriaethau. Mae'n ddigon posib mai hwn oedd y tro cyntaf i Gayney berfformio yn gyhoeddus ers cyrraedd Aberystwyth. Roedd 1878 yn flwyddyn uchelgeisiol yn hanes yr Adran Gerdd. Bu Gayney yno ar yr amser iawn i chwarae'r rhan yn hanes cerddorol Cymru. Dyma pryd y perfformiwyd opera cyntaf yr Athro Parry, 'Blodwen', am y tro cyntaf. Canolbwyntiodd yr Adran ar baratoi a pherfformio'r gwaith.

Cwblhawyd 'Blodwen' ym mis Chwefror 1877. Dyma'r opera Gymraeg gyntaf erioed. Fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf yn gyhoeddus yn y Neuadd Ddirwest, Aberystwyth ar 21 Mai 1878. Canwyd rhan Blodwen gan y brif soprano, Hattie Davies (myfyrwraig arall), a rhan Ellen gan Gayney, yr ail soprano. Ymysg y perfformwyr eraill 'roedd Lucas Williams, y bariton enwog a fyddai'n canu yn y Crystal Palace Concerts, Llundain. Mae'n amlwg fod dawn yr Adran yn



Braslun o'r Weirglodd-ddu, cartref Gayney Griffith — tua 1850 — llun gan Tom Closs Williams.

fawr gan i'r Athro Parry ystyried defnyddio ei hadnoddau ar gyfer perfformio opera. Gyda llaw, ar ddiwrnod y perfformiad, 'roedd yr Athro Parry yn dathlu ei benblwydd yn 37 mlwydd oed. Ni wnaed ymdrech i actio yr opera ar y noson gyntaf, ond gwisgwyd y cantorion ar gyfer cyfnod y stori, sef Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg — oes

arwain cerddorfa'r Alexandra Palace. Gallwn fod yn weddol sicr mai Gayney a ganodd rhan Ellen ar y ddau achlysur. Ar 12 Mai 1879 perfformiwyd 'Blodwen' ym Mlaenau Ffestiniog a Chaernarfon, y tro hwn yn opera llawn, ar 24 Mai. Cafwyd llwyddiant ysgubol yng Nghaernarfon gyda tua 3,000 yn bresennol yn y Pafiliwn i'w chlywed. Hysbysebwyd perfformiad Caernarfon yn y *North Wales Express* ar 23 Mai 1879 gydag enw Gayney ymysg y prif gantorion.



Yr Athro Joseph Parry, pan oedd yn Athro Cerdd yn Aberystwyth 1874-1879.

Gwnaed trefniadau i berfformio 'Blodwen' yn Eisteddfod Gadeiriol Eryri, Llanberis ar 21 Awst 1879. Codwyd adeilad newydd dros dro ar gyfer yr achlysur. Bwriadwyd actio a chanu'r opera gyda cherddorfa a gwisgoedd y cyfnod. Er fod hysbyseb wedi ymddangos ar dudalen flaen y *North Wales Express* ar 15 Awst 1879, yn cadarnhau enwau'r perfformwyr, mae'n annhebyg fod unrhyw un yn Nant Peris wedi amau am eiliad na chai Gayney y cyfle o ganu ym mro ei mebyd. Ond siomwyd pawb gan ddau ddigwyddiad anffodus a olygai na fu'n bosib perfformio'r gwaith yn Llanberis. Llai nag wythnos cyn y perfformiad caewyd y rheilffordd rhwng Llanberis a Chaernarfon oherwydd difrod i'r cledrau. Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach ar nos Lun, 18 Awst, daeth gwyntoedd mawr i'r fro gan ddymchwel yr adeilad newydd i'r llawr.

Achubwyd y sefyllfa gan ymyrraeth rheolwr Pafiliwn Caernarfon a gynigiodd y Pafiliwn i'w ddefnyddio ar gyfer yr Eisteddfod a pherfformiad 'Blodwen'. Heb drenau rhwng Llanberis a Chaernarfon tipyn o fenter fyddai cyrraedd y dref i glywed Gayney yn canu, gyda rhai yn teithio a throl a cheffyl ac eraill yn cerdded. Yn ôl adroddiad yn y *North Wales Express* bu'n bwrw glaw mawr ar ddiwrnod y perfformiad, ond cliriodd erbyn min nos i alluogi

"Y GWIR YN ERBYN Y BYD."



"O! IESU NA'D GAMWAITH."

"MOR O GAN YW CYMRU I GYD."

EISTEDDFOD GADEIRIOL ERYRI, GWYL GERDDOROL CYMRU, A GORSEDD BEIRDD YNYS PRYDAIN, A GYNHELIR YN LLANBERIS, AWST 20FED, 21AIN, A'R 22AIN, 1879.

O DAN NAWDD ARBENNIG

Y Gwir Anrhydeddus ABGLWYDD PENRHYN. T. D. LOVE JONES-PARRY, Ysw., Madryn.
G. W. D. ASSHETON SMITH, Ysw., Vaynol. H. J. E. NANNEY, Ysw., Gwynfryn.
COLONEL WYATT, Portdinorwig. Y Gwir Anrhydeddus C. H. WYNN, Rug.
Prof. JOHN RHYS, Rhydychain. JOHN LLOYD JONES, Ysw., Plasbryn.
W. A. DARBISHIRE, Ysw., Nantlle. CADDEN STEWART, Bryntirion.
BRINLEY RICHARDS, Ysw., Llundain.

LLYWYDDION:

COLONEL WYATT, Portdinorwig. JOHN LLOYD JONES, Ysw., Plasbryn.
Prof. JOHN RHYS, Rhydychain. T. D. LOVE JONES-PARRY, Ysw., Madryn.
W. A. DARBISHIRE, Ysw., Nantlle.

ARWEINYDDION:—TANYMARIAN A LLEW LLWYFO.

CANTORION:

Soprano—Miss MARIAN WILLIAMS, R.A.M., a Miss GAYNEY GRIFFITH, U.C.W.
A Miss JENNIE OWEN, y Gantores enwog o'r America (dyma ei hymddangosiad diweddfaf yn Nghymru.)

Contralto—Miss JENNIE WILLIAMS, U.C.W.

Tenor—Eos MORLAIS, Mr JOHN W. THOMAS, a Mr W. H. LEWIS (Eos Padarn).

Bass—Mr JAMES SAUVAGE, Dr PARRY, a LLEW LLWYFO.

DATOANWR PENILLION—EOS MAI.

Y DELYN—Mr J. E. DAVIES (Telynol y Googledd).

CYFELWYR—MASTER JOSEPH HAYDN PARRY a MASTER D. D. PARRY, Organydd, Bethesda.

COR YR EISTEDDFOD—UNDEB CORAWL ERYRI (120 o LEISIAU).

ARWEINYDD—Mr OWEN GRIFFITH (Erys Eryri).

CYSTADLEUAETHAU CORAWL MAWREDDOG BOB DYDD.

BEIRNIAID CERDDOROL:

Dr JOSEPH PARRY, PENCERDD GWYNEDD, EOS MAI, a Mr JOHN E. DAVIES (Telynol y Googledd).

PERFFORMIAD LLAWN, dan arweiniad y cyfansoddwr, o'r Opera Gynreig "BLODWEN,"
Dr Parry, AWST 21ain, gyda Cherddorfa ardderchog o Gloucester, Birmingham, a Bristol—
arweinydd, E. G. Woodward, Ysw.

Enwau y Corau a'r gwahanol Gystadleuwyr Cerddorol i fod yn llaw yr Ysgrifenydd Cyffredinol
Awst 6fed, gyda hanes coron o flaendal. Dychwelir yr arian i bawb a ddaw yn mlaen i gystadlu.
GORYMDAITH FAWREDDOG I BEN Y WYDDFA NOSWAITH OLAF YR
EISTEDDFOD,

yn cael ei blaenori gan Seindorf Bres, 80 o nifer. Cynygia Syr Gruffydd, Caernarfon, wobr o Gini, i'r
un a gano oreu "Codlad yr Haul," John Thomas, yn solo gyda'r Delyn, ar ben y Wyddfa. A rhoddir
y datganiad cyntaf o'r cydgan ardderchog "Molawd yr Haul," gan Undeb Corawl Eryri; darn wedi
ei gyfansoddi yn arbenig ar gyfer yr orymdaith gan Dr Joseph Parry—y geiriau gan Glan Padarn.

Bydd Cerbydresi Rhad, ac arbenig, o bob parth o Ogledd Cymru.

Y mae Awdurfrain y Programme wedi ei werthu i Mr R. Owen, Printer, Llanberis, bydd yn barod
Awst 8fed, ac i'w gael oddiwrtho ef yn unig; drwy y Post, 3/6.

o. 3158-M

G. E. JONES (Evan Efrai), Ysgrifenyddion
R. C. JONES, Clogwyn Gwyn, Mygedol.
GRANVILLEFAB, Ysgrifenydd Cyffredinol.

ymwelwyr i fynd i mewn i'r dre. Er
gwaethaf yr holl helynt fe aeth y
perfformiad ymlaen yn llwyddiannus
gyda Gayney yn canu rhan Ellen.
Roedd yr unawdwyr eraill yn gyn-
fyfyrwyr i'r Athro Parry ac roedd
Haydn, mab yr Athro, wrth y piano.
Gweithredai'r Athro Parry fel
beirniad ac unawdydd yn yr
Eisteddfod, a defnyddiwyd rhannau
o'i opera yn ddarnau prawf.

Dyma ychydig o hanes bywyd a
gyrfa Gayney. Nid wyf eto wedi
darganfod llawer mwy am weddill ei
bywyd. Mi briododd gyda Ifan
Richard Evans, Y Fron, Nant Peris.
Bu i'r ddau ymgyrtrefu yng Nghwm
Eilir, tyddyn a leolir rhwng y Nant
a Llanberis. Bu farw Ifan yn 1911 yn

54 mlwydd oed. Trist yw deall fod
Gayney wedi treulio blynyddoedd
olaf ei hoes yn y Wyrwys yng
Nghaernarfon. Mae'n debyg ei bod
yno o 1939 ymlaen yn anghofus a
chyda chryn atgasedd tuag unrhyw
fath o gerddoriaeth, yn fyw neu ar y
radio. Bu farw yn Ysbyty Eryri,
Caernarfon, ar 5 Rhagfyr 1942 yn 92
mlwydd oed. Fe'i claddwyd ym
mynwent Sant Peris, llai na chan
llath o'i chartref.

Gwerthfawrogwn glywed oddi
wrth ddarllenwyr yr *Ecosy'n* gwybod
unrhyw beth am hanes Gayney.
Anfonwch ataf: 20 Stryd y Bont,
Aberystwyth, Dyfed SY23 1PZ.

HEFIN WILLIAMS

(Gyda diolch i'r Llyfrgell Genedlaethol am hawl
i ddefnyddio llun yr Athro Joseph Parry.)

Cais am Air — yn Gymraeg

Daeth yn dymor ail-archebu'r *Eco'r Wyddfa*
i'r nifer fawr sy'n ei dderbyn trwy'r post
mewn gwahanol rannau o'r byd. Ein diolch
i'r nifer fawr ohonoch sydd wedi anfon
rhoddion i gronfa'r *Eco*.

Mae nifer o'n darllenwyr 'alltud' yn
mwynhau'r *Eco* gan mai dyma'r unig
gysylltiad â'r Gymraeg i nifer ohonynt. Un o'r
darllenwyr rheolaidd yw Mrs Rosalie
Lamburn sy'n dweud:

'Da yw clywed gair o Gymraeg pob hyn a hyn.

Hoffwn fod yn y fro gan fy mod wedi fy magu
yng Nghlwyf y Bont, ac mae atgofion plentyndod
hen Ysgol Brynrefail (ac wedyn yn Llanrug) yn
llenwi'r meddwl ar adegau.'

Cais sydd gan Mrs Lamburn (Rosalie
Hudson gynt) am glywed oddi wrth unrhyw
un a ddechreuodd eu gyrfa yn Ysgol
Brynrefail yn 1950. Byddai'n hoffi sgwennu
atynt. Y cyfeiriad yw: Chalton Farmhouse,
Moggerhanger, Bedfordshire MK44 3RA.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd
ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562



Y Weirglodd-ddu heddiw — llun gan Tom Closs Williams.

Yn yr ardd . . .

Y mis hyfrydaf

Dymuna'r bardd i bob mis fod yn fis Mai, a sawl gwaith
y clywsom y gân, 'O! na byddai'n haf o hyd'. Ond nid
peth da i'r ardd fyddai hynny. Mae'n rhaid i natur gael
cysgu fel pawb arall, a deffro yn y gwanwyn. A dyma ni
ym mis y deffro. Dyma'r mis hyfrydaf o'r flwyddyn. Wel,
beth am fynd am dro bach o amgylch yr ardd i weld sut
olwg sydd arni ar ôl y gaeaf hir a stormus.

Cawsom wledd o flodau'r
Gwanwyn, y saffrwn a'r eirlysiau
yn dal pob tywydd (dipyn yn
anlwcus ydw i efo'r eirlys, mae
rhywbeth yn eu bwyta, llygod bach
medd rhai pobol — oes gan
rhywun eglurhad arall?

Y cennin Pedr ydyw'r ffeffryn
gen i a maent wedi bod yn wledd
i'r llygad eleni ac wedi dal y
gwyntoedd yn rhyfeddol o dda.

Cefais fynd i weld gardd ffrind
imi Sul y Pasg, a wir, ni welais
gymaint o gennin Pedr efo'i gilydd
ers llawer dydd. Maent yn eu
gadael i wywyo'n naturiol a dyna'r
ffordd orau i'w cadw, ond byddaf
yn eu codi, i wneud lle i rywbeth
arall, a'u claddu mewn cornel nes
y byddant wedi gwywo'n llwyr, yna
eu codi a'u sychu a'u hail blannu
yn yr hydref. Mae llawer o bobol
sy'n hoff o le taclus yn eu rhwymo
yn unigol ond nid yw'r arbenigwyr
yn cymeradwyo hynny.

Wrth sôn am ardd rhywun arall
mae gennyf ffrind, a gardd fechan
iawn ganddi, ond mae'n werth ei
gweld. Mae ganddi hithau sioe
ardderchog o'r cennin Pedr yn y
gwanwyn. Wedi clirio cennin Pedr
bydd ganddi begonia — aristocrat
y blodau — ac yn gefndir i'r rhain
bydd dwy neu dair o wahanol

clematis yn gefndir i'r cyfan.
Gwledd i'r llygad, a hoffaf fynd
yno ac edrych allan drwy ffenest ei
gegin. Gresyn na wnâi mwy o bobl
wneud beth mae hi'n ei wneud —
buan iawn yr enillai'r pentref y
wobr am y pentref taclusaf yng
Nghymru.

Mae mis Mai yn amser gweddol
ddiogel i roi planhigion hanner
caled allan. Ymddangosant yn y
siopau braidd yn rhy gynnar ac y
mae rhai di-brofiad yn eu plannu
yn rhy gynnar ac yna fe gawn
farrug diweddar a ffarwél i'r
planhigion bach.

Ychydig o daliah byr sydd gen i.
Bum yn ffodus i fedru eu cadw
rhag rhew eleni. Os oes gennyh
dorion fe ellwch eu rhoi i lawr at
ddiwedd y mis, ond mae'r tatws
bach ydyh wedi eu cadw yn barod
ers tro.

Mae cannoedd o blanhigion
hanner caled i'w rhoi i lawr a
gobeithio y bydd gerddi bach y
pentref yn llawn ohonynt.

Hwyll!


CYNGOR CYFRINACHOL

AM DDIM

Yn Gymraeg
ffoniwch

0800 289 011

os oes gennych unrhyw
gwestiynnau ynglyn â
Budd-daliadau



FFÔN DDI-DAL

CHWILOTA

Hel Atgofion yn Arwerthiant Y Greuor



Yn ystod Ebrill gwerthwyd celfi fferm a pheiriannau fferm Y Greuor, Llanrug. Daeth i ben, o bosibl, gyfnod ffermio ar y tir hwn gan fod cynlluniau am gwrs golff ar diroedd yr ardal hon rhwng Llanrug a Phontrug eisoes wedi cael caniatâd.


Diddorol oedd gwrando atgofion rhai o drigolion y fro a ddaeth i'r arwerthiant. Roedd amryw yn cofio Rolant (neu Rowland) Williams a fu'n ffermio yno rhwng y ddau ryfel byd. Yn ôl pob tebyg, ef a adeiladodd y tŷ bychan ar waelod yr allt sy'n arwain o'r lôn fawr i fuarth y fferm. Yn ôl eraill, Rolant Williams oedd hefyd yn gyfrifol am ail-adeiladu rhannau o'r tŷ fferm a'r adeiladau allanol. Roedd amryw yn ei gofio yn contractio yn Chwarel Glyn Rhonwy, Llanberis, ac yn gwisgo het galed, gron, bob amser. Rolant Williams oedd y cyntaf i ddod ag injan lladd-gwair i ardal Llanrug, a bu cryn brotestio am hynny oherwydd fod cymaint o bladurwyr wedi colli gwaith.

Ni allai neb gofio'n hollol pryd y bu farw, na chwaith ymhle cafodd ei gladdu. Oes rhywun o'r darllenwyr â mwy o wybodaeth?

O astudio Mapiau'r Degwm am Blwyf Llanrug, mae'n amlwg fod safle ffermyd'r Greuor wedi ei newid dros y blynyddoedd. Bryd hynny, roedd safle'r tŷ o'r tu cefn i ble mae tai Sŵn y Gwynt a Lodge Llwyn Brain heddiw. Dangosir adeilad arall ble mae'r Greuor presennol, ac y mae'r lôn fach sy'n arwain o'r ffordd fawr tua'r fferm yn cael ei dangos hefyd. Mae'r adeilad a ddangosir ar Fap y Degwm mewn cae o'r enw Cae Mawr. Roedd tŷ o'r enw Cae Mawr yma, oherwydd ceir cyfeiriadau ato yng Nghofrestrau'r Plwyf.

Mae'n ymddangos fod ffermyd presennol y Greuor wedi ei adeiladu ar hen safle Cae Mawr.

Sylwer ar rai o enwau caeau eraill y fferm: Cae Big — ar y



Rhan o fferm Y Greuor yn ôl Map y Degwm.

chwith ar gopa allt Pen y Greuor; Cae Tu Ucha'r Beudy — ble mae arwydd 'Seiont Manor'; Cae Lôn Llwyn Brain; Cae Bach. Mae'r pedwar cae bellach wedi ei uno i ffurfio'r triogl rhwng y tair lôn.

Diolch i Mrs M. E. Jones, 3 Stryd Mason, Bangor, am lun arall o Ruth Jones yn sefyll wrth ddrws ei chartref yn Craig y Dinas. Tynnwyd y llun dros 50 mlynedd yn ôl.



Cais am wybodaeth: Pa bryd yr adeiladwyd Efail Newydd ar yr allt o Bontrhythallt am Benisarwaun? Anfoner i'r Golygydd Erthyglau.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy



I DDYSGU
DREIFIO EFO
STAN
(Ysgol Yrru Rhiwen)
Ffoniwch
Bangor
364143


DAN FLEW EIN LLYGAID

hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

MAE CHWIAD YN EI GAEL O AM DDIM YNTYDYN

1 Ebrill, 1991

At: Bwyllgor Cwsmeriaid Cymru,
Ofwat Arolwg,
Llawr I,
Tŷ Caradog,
Plas Sant Andreas,
Caerdydd CF1 3BE



Annwyl Bwyllgor Cwsmeriaid Cymru
TALIADAU DŴR YN Y DYFODOL:
Anfonwch air atom — dyma'ch cyfle
i leisio barn.

Daeth y llythyrgludydd dan ei bwn echdoe tua'r tŷ 'cw — llythyr trwmlythog gan Fwrdd Dŵr Cymru sy'n gweithio i Loegr onidê? Darllenais yn eiddgar. Y Bwrdd Dŵr am dolcio tipyn ar y biliau anferthol o uchel sy' yma yng Nghymru am ddŵr sy'n anrheg rhad o'r nefoedd ymhobman o'n cwmpas? Yn wir, gan fod y rhan fwyaf o drysorau Cymru wedi'u dwyn neu eu hecsploetio (dyna hen air mawr hyll yn wir), gan yr estron-genedl, yr unig drysor — yr unig gyfoeth gweladwy sy' gennym yw dŵr. Ond yn lle ei gynnig yn rhad ac am ddim i gwsmeriaid yn yr hen wlad beth a wneir tybed, ond codi'i bris heb roi cyfle i'r un enaid byw gael lleisio barn. Dyna'r gŵyn gyntaf, Bwyllgor clên. Ac yn ail, am ddanfôn toreth o stwff diddorol, ac weithiau hynod anniddorol, yn gofyn a oes angen Mesurydd Dŵr ar bobol Cymru. Mae eisiau mesur eich pennau chwi, oes wir ddyn! Mae'ch trethi dŵr yn hynod annheg o gofio fod lleoedd amlwg fel Birmingham yn Lloegr yn talu llai am ddŵr nad yw'n eiddo iddynt yn y cychwyn cyntaf. Dydy o'n ddiddorol dwedwch eich bod ar ben hynny yn cynhyrchu elw sylweddol yn flynyddol ac yn cynnig gwobrau hael i bersonau (yr enwau o het) sy' wedi medru hel digon o gelc i dalu un swm lwmp i chwi. Er mwyn i chwi fuddsoddi'r arian mae'n

debyg a gwneud mwy o elw eto fyth? Rŵan, mae croeso i chwi, o ystyried hyn i gyd, i roddi Mesurydd Dŵr yn y tŷ 'cw, a hynny, er tegwch i bawb — tri ar ddeg o bennau sydd acw (gan gynnwys y cŵn a'r cathod sy' ishio bath fel pawb arall!). OND, pam rhaid i mi ysgwyddo'r gost? Beth am y rhai sy'n ddi-waith? Beth am y pensiynwyr? Ydych chwi am greu cymdeithas ranedig — y rhai a all fforddio a'r rhai sy'n gorfod bywtalu o ddydd i ddydd? Mi wn fod yn rhaid i mi dalu — a hynny drwy deneuwch fy nhrwyn — oherwydd mai CYMRO tlawd ydw i ac nid Sais sy'n byw ar ddŵr cyfoethog Cymru. Gan i chwi roddi tan Ebrill 12fed eleni i mi lenwi'ch holiadur, rhoddaf i chwithau tan Sul y Blodau flwyddyn nesaf i gofio am Gymru ac ateb hwn o druth. MAE chwiaid (hwyaid) yn ei gael o am ddim yntydyn? Ac mae nhw yn cwacian ac nid yn cyfarth ac udo fel y gwnaf i arnoch ers rai blynyddoedd bellach am gyfiawnder.

Yn ddiffuant-ddi-gyfro iawn iawn,
Y Llygad Fach Graff.

O.N.: Ddarllenydd annwyl Eco'r Wyddfa a wnest ti gofio am dy gymrodyr a chwffio achos dy Gyd-Gymry, neu a oeddet ti'n fodlon byw dy Brydeindod heb falio'r un botwm corn am gyflwr byw dy gyd-wladwyr? Mi gefaist ffurflen Gymraeg, frawd a chwaer, a beth a wnaethoch â hi — ei lluchio i'r tân, neu ei roi dan dŵn y ci yn y parlwr?

COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU Adran Efrydiau Allanol

Ysgol Undydd: HANES LLEOL — LLANBERIS

i'w chynnal ar
DDYDD SADWRN, MEHEFIN 8 am 9.30 a.m.
Lleoliad: AMGUEDDFA'R GOGLEDD, LLANBERIS
Ffi: £3.50 (i gynnwys coffi)

Siaradwyr:

9.30 — DAFYDD ORWIG: Plwyf Llanddeiniolen o lawr gwlad i odre'r dal Elidir
11.00 — DAFYDD WHITESIDE THOMAS: Adar Brith a Chwrw
12.00 — DEWI JONES: Tywyswyr a chasglwyr Planhigion yn Eryri
2.30 — Miss MATT PRITCHARD: Atgofion am Llanberis rhwng y ddau ryfel
3.30 — Dr PRYS OWEN: Perthyn Ddoe a Heddiw — Hanes Teulu o Benisarwaun

FFURFLEN GOFRESTRU — LLANBERIS

Hoffwn ymuno â'r Ysgol Undydd uchod ac amgaeaf y ffi o £3.50

ENW.....

CYFEIRIAD..... Rhif Ffôn:.....
Dychweler i: Mrs Nerys Hague, Adran Efrydiau Allanol, G.P.G.C., Bangor LL57 2DG
erbyn Mehefin 1af, 1991.

Dyddiadur y Mis

MAI 1991

2. Iau. Yr Ardal: Etholiadau Cynghorau Dosbarth a Chymuned. Bethel: Yr Urdd — Noson Mabolgampau. Llanrug: Cyfarfod Undeb y Mamau yng nghartref Mrs Ransom am 7.

3. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8. Waunfawr: Noson Goffi 'Cofio'r Cwrdaid' yn Y Ganolfan am 6.

5. Sul. Cyfarfod Ysgolion Sul Dosbarth Caernarfon — Cyfarfod y Plant — yn Theatr Seilo, Caernarfon am 2. Bethel: Cymanfa Annibynyr y Cylch yng Nghapel Bethel yn y bore a Chymmanfa Dosbarth Padarn yng Nghapel y Cysegr prynhawn a nos. Dinorwig: Cymun Bendigaidd yn Eglwys y Santes Fair am 3.45.

6. Gŵyl Fai.

7. Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau am 7. Dinorwig: Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan am 7.

8. Mercher. Llanberis a'r Ardal: Cyfarfod Antur Padarn yn Angorfa am 7.

9. Iau. Brynrefail: Cymdeithas y Chwiorydd — sgwrs gan Rol Williams, Waunfawr.

10. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8. Llanberis: Cyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Trên Llyn Padarn yn y Gilfach Ddu am 7.30.

12. Sul. Llanrug: Cyfarfod Pregethu yn y Capel Mawr. Waunfawr: Pencampwriaeth Cymdeithas Karate Kokoro Shukokai yn y Ganolfan am 10.30 a.m.

13. Llun. Llanberis: Cyfarfod agored blynnyddol Pwyllgor yr Eisteddfod, yn Angorfa am 6.45. Deiniolen: Gwasanaeth i lansio

Wythnos Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llandinorwig am 7.

14. Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr — Arddangosfa Gosod Blodau a Chyfarfod Blynnyddol. Llanddeiniolen: Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor Cymdeithas yn Ystafell y Band, Deiniolen. Deiniolen: Sefydliad y Merched.

15. Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — Helfa Drysor am 6.30 o Ysgol Brynrefail.

17. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8. Llanrug: Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol Gynradd — Helfa Drysor. Bethel: Cyfarfod Cymdeithasol yn y Neuadd.

19. Sul (Y Sulgwyn). Llanberis: Noson o Gân yng Nghapel Coch, Llanberis. Dinorwig: Cymun Teuluol yn Eglwys y Santes Fair am 10 y bore.

20. Llun. Dinorwig: Cyfarfod i drefnu Hwyl Haf '91 yn y Ganolfan am 7.

23. Iau. Cyfarfod Cyflwyno Medalau Gee gan Gyngor Eglwys Rhyddion Cymru yn Ninbych.

24. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

25. Sadwrn. Rali Ffermwyr Ieuaic ar fferm Lleuar Bach, Pontllyfni. Plaid Cymru Waunfawr: Taith Gerdded — cyfarfod ym maes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth, Niwbwrch am 2.

26. Sul. Cymanfa Ganu Rali Ffermwyr Ieuaic yng Nghapel Glanrhyd, Llanwnda am 8. Dinorwig: Gwasanaeth y Gosber yn Eglwys y Santes Fair am 3.45 o'r gloch.

27. Llun. Gŵyl Banc y Gwanwyn. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Tâf Elai. Brynrefail: Dathlu 50 mlynedd Sefydliad y Merched.

Ieuenctid yn curo'r dynion

Sawl tro y rhoddwyd sylw haeddiannol i Colin Jones, y rhedwr o Bontrug, a enillodd nifer helaeth o wobrau am redeg yn adrannau plant ac ieuenctid y fro, Cymru ac Ewrop? Bellach, mae Colin yn cael cystadlu yn rاسus y dynion hŷn (dros 18 oed) ac y mae eisoes yn gwneud ei farc.

Dydd Sadwrn, 27 Ebrill, cynhaliwyd Ras Mynydd Mawr — y gyntaf o rاسus pencampwriaeth Clwb Eryri am eleni. Roedd bron i 60 o redwyr yn cystdlu, a Colin oedd yn fuddugol — gan ennill yn erbyn rhedwyr hŷn a gynrychiolodd Gymru yn y gorffennol — Dafydd Roberts, Huw Parry a Gwynfor Owen. Yn ogystal â churo, torrodd Colin y record am y cwrs hefyd. Gwynfor Owen o Lanrug ddaeth yn bedwerydd, a Dafydd Thomas o Lanrug yn drydydd yn y ras dros 40 oed.

Nos Fawrth, 30 Ebrill, cynhaliwyd Ras Moel Cynghorion — un o gyfres o rاسus mynydd canol wythnos a drefnwyd dros fisoedd yr haf. Dyma'r tro cyntaf i'r ras hon gael ei chynnal — a Colin Jones unwaith eto'n fuddugol gan greu record. Daeth Dafydd Thomas o Lanrug yn drydydd eto yn yr adran dros 40 oed.

Dwy record mewn pedwar diwrnod. Dyna gychwyn eithriadol o dda i dymor rhedeg mynyddoedd. Mae pethau'n argoeli'n rhagorol i Colin.

Aled Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio
4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYN HYFRYD
BETHEL
Ffôn: Port Dinorwig
670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

**CARTREF
HENOED**



Caernarfon
(0286) 4652


Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

CROESAIR MAI



AR DRAWS

2. Ceir un ar Bont Briwet ond nid ar y Cob (5)
5. Aderyn llwydlas y Gwanwyn (4)
7. Wedi diuno (4)
8. Tipyn go lew! (8)
9. Gweler 23 ar draws
11. Nifer penodol (4)
12. Esgor ar un ac un ac un arall bach (4,1,3,5)
15. Twell bach hwn
17. Traethau Llŷn neu Fôn hwyrach (8)
19. Theatr Gymuned tu ôl ymlaen (4,4)
21. '___' ymhell mae gwyrddlas fryn' (4)

22. Seiriol neu Tudwal (4)

23. (a 9 ar draws) Rheilffordd 'Byclings' (4,1,8)

I LAWR


1. Diodydd gyda nicotîn (4,1,2)
2. Cornel mewn ffordd (3)
3. Arferiad y Meibion (5)
4. Effaith bwydo'r tenau (7)
5. Un pry cop mae'n siwr (3)
6. Ni hoffwn ef ar y pared (5)
10. Arwydd o heneiddio (5)
11. Trysor henafol
13. Y daith yma ac acw (7)
14. Gwaed cynnes ganddo (7)
16. Peiriant codi pwysau (5)
18. Ni'n dau (2,1,2)
20. Coch neu frown fel arfer
21. Ceir môr neu bach ar ei hôl (3)

CROESAIR EBRILL Atebion ac Enillwyr

Dau yn unig yn gywir y mis hwn — Janet Hughes, Dolfor, Pistyll, Pwllheli, a Sera Williams, Sŵn y Môr, Pistyll, Pwllheli. Tybed a fu'r ddwy'n cymharu atebion?!!

Roedd y gweddill i gyd wedi camateb unai 7 i lawr — 'drwy lymder' yn hytrach na 'trwy sychder' — neu 24 ar draws: 'magwraeth' yn lle 'mamolaeth'.

Yr enw cyntaf allan o'r het oedd: Janet Hughes, Dolfor, Pistyll, Pwllheli.



CHWARAEON

O'r Waunfawr i'r Maes Cenedlaethol

Arwel Parry, cefnwr tîm rygbi Pontypŵl. Mae gan Arwel gysylltiadau agos iawn â'r Waunfawr — yno y mae ei ddwy nain yn byw. Rhieni Arwel yw Elwyn a Mary Parry — y ddau o'r Waunfawr ond yn byw yn awr yng Nghaerffili.

Mae Elwyn yn fab i Mrs Jennie Parry, Clydfan, Waunfawr; a Mary yn ferch i Mrs Grace Griffith, Tanrallt, Waunfawr. Yn naturiol ddigon mae perthnasau a chyfeillion Arwel yn y Waun yn dilyn ei lwyddiant ar y maes rygbi ac yn falch o'i lwyddiant. Bu'n aelod o dîm rygbi Cymru dan 18 oed ac mae wedi chwarae mewn timau rhanbarthol, a'r gobaith yw ei weld yn cynrychioli'i wlad eto ar y maes cenedlaethol. Yn y gêm gyn-derfynol am y cwpan Schweppes, bnawn Sul, 7 Ebrill, cafodd Arwel, sy'n 25 oed, gêm arbennig o dda a thrwy sgorio 13 pwynt o'r 28 a sgoriodd Pontypŵl i goncro Abertawe, 'roedd

cyfraniad Arwel yn allweddol iawn.

Edrychwn ymlaen i weld Arwel yn y gêm derfynol sydd i'w chwarae ar y maes cenedlaethol yn erbyn Llanelli ar 4 Mai.



Y Cwis — Neb yn Gywir!

Wel, 'does na neb wedi dweud yn gywir wrtha' i, beth bynnag, pa un o gwestiynau cwis mis Ebrill oedd ag elfen o dynnu coes ynddo, hynny ydi, rhywbeth yn anghywir yn y cwestiwn ei hun. 'Roedd rhai yn mynnu nad oes y fath beth â thwrnament golff yn cael ei chwarae dros bum rownd, **wel ma' 'na; mae 'na gricedwr a fowliodd 98 pelawd mewn un batiad mewn gêm brawf hefyd**, ac yn wir i chi, **fe enillodd Phil Neal wyth medal pencampwriaeth cynghrair pêl-droed Lloegr hefo Lerpwl**, a dyna ateb y cwestiwn cyntaf.

Y Bob Hope Classic yn yr UDA yw'r twrnament golff hwnnw, ac yn y trydydd cwestiwn y cuddiais y camgymeriad. **Ni chynhaliwyd gemau Olympaidd yng ngaeaf 1982.** 'Roedd tad yr enwog **Fre Perry** yn Aelod Seneddol, a **Bert Trautmann** a dorrodd ei wddf yn y ffeinal. Do y'chi, fe fowliodd **Sonny Ramadhin** 98 pelawd mewn un batiad yn erbyn Lloegr yn 1957, ac fe enillodd **Maro Nurmi** o'r Ffindir bum medal aur yng ngemau Olympaidd 1924. Yr 'all-rounder' hwnnw wnaeth bopeth bron dros Lloegr yn niwedd y ganrif ddiwethaf oedd **Charles B. Fry**, a **Charlotte Breer** oedd y ferch gyntaf i reidio'r Grand National. **Ron Clarke** dorrodd ddeg record byd am redeg yn 1965.

Mae'r cwestiwn cyntaf y mis yma wedi creu peth dadl eisoes, gan fod posibilrwydd fod mwy nag un ateb cywir yn bosib. Y cwestiwn yw:

1. Beth **na chaiff** y gôlgeidwad ei wneud ar y cae pêl-droed, gaiff ei ganiatáu i'r holl chwaraewyr eraill, y dyfarnwr a'r llinellwyr?
2. Pa gyn-chwaraewr Rygbi'r Undeb sgoriodd 496 pwynt i Leeds mewn gemau'r gynghrair yn 1956-57?
3. I ba ddau glwb pêl-droed yn yr Eidal y bu John Charles yn chwarae?
4. Pwy enillodd bencampwriaeth snwcer amatur Lloegr yn 1978 a '79?
5. Pwy oedd y golffiwr gafodd rownd o 60 yng nghystadleuaeth agored Biarritz yn 1988?
6. Pwy enillodd bencampwriaeth snwcer y byd yn 1978?
7. Daeth 56,643 o bobl i wyllo ffeinal y cwpan Schweppes yn 1988. Pa ddau dîm oedd yn cystadlu?
8. Pwy, yn 1988, oedd y Prydeiniwr cyntaf i ennill pencampwriaeth 'match-play' y byd?
9. Pa chwaraewr Rygbi fu'n gapten ar ei wlad yn ugain oed?
10. Pwy, yn 1970, oedd y gŵr cyntaf o Brydain i ennill pencampwriaeth y byd mewn neidio ceffylau?

A phob lwc i chi!

YSGOL BRYNREFAIL Rhedeg Traws Gwlad

Colin Jones enillodd y ras i fechgyn blwyddyn 4, 5 a 6 gyda record newydd o 18m 39 eil. Siôn W. Hughes ddaeth yn ail a Gavin Allen yn drydydd. Alun Vaughan oedd buddugwr ras bechgyn y flwyddyn gyntaf a Celfyn Jones y ras blwyddyn 2 a 3.


Nicola Houston oedd yn fuddugol yn y ras i'r genethod hynaf, a Catrin Jones enillodd ras genethod y flwyddyn gyntaf. Caroline, chwaer Colin, aeth a hi yn ras genethod blwyddyn 2 a 3.

Daeth tai Eilian a Gwyrfaï yn gyfartal gyntaf gyda 83 o bwyntiau, Eryri 82 pwynt ac Elidir 47.

PYSGOTA: Deorfa Pont Crawia

Bu Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfaï a Llyfni yn ddigon ffodus, ddwy flynedd yn ôl, i sicrhau Gwobr Cadwraeth cwmni Benson & Hedges i'w cynorthwyo i adeiladu deorfa er hyrwyddo magu eog, brithyll a sewin a'u dychwelyd i'r Seiont. Fe ddechreuwyd ar y gwaith ym misoedd yr haf y llynedd, a bellach mae'r ddeorfa'n barod i dderbyn yr wyau yn yr hydref eleni.

Sefydlwyd y Gymdeithas yn y flwyddyn 1908 ac yn raddol dros y blynyddoedd fe lwyddwyd i brynu tua 45 milltir o bysgota ar yr afonydd sy'n rhoi ei henw iddi. Yn 1985 daeth y cyfle i brynu'r hawl i 'sgota ar afonydd Bala, Rhythallt, Seiont a Llyn Padarn gan y Bwrdd Dŵr, ynghyd â pheth tir sy'n ffinio â'r afonydd, gan gynnwys hen felin y Faenol ym Mhont Crawia, Llanrug.



Maer Arfon, Mrs Betty Williams yn bwydo'r pysgod yn un o'r tanciau.

Bu'n rhan o bolisi y Gymdeithas erioed i sicrhau safon y dyfroedd 'sgota, ac i'w gwella lle bo modd, ynghyd â sicrhau fod digon o bysgod ar gael ynddynt. Bu prynu'r hen felin yn fodd i gyflawni'r uchelgais o adeiladu deorfa. Fe gofiwch i filoedd o bysgod gael eu lladd yn dilyn tywallt sment i'r dŵr ym mis Mai 1989 tra'n atgyweirio'r bont — bu angen dybryd ers hynny i ychwanegu at y stoc.

Aelodau'r Gymdeithas, yn ddi-dâl ac yn eu horiau hamdden, fu'n gyfrifol am godi'r ddau adeilad a threfnu fod llif o ddŵr yn rhedeg drwy'r tanciau. Fe sicrhawyd fod lle i ychwanegu at y nifer o danciau hefyd yn y dyfodol os bydd angen. Y prosiect nesaf ar y gweill ydi'r cynllun i godi tŷ i gartrefu beili llawn amser, a fyddai'n gwarchod y dyfroedd rhag y potsiars.



Dadorchuddio'r plac ar yr adeilad — swyddogion y Gymdeithas ynghyd â chynrychiolwr cwmni Benson & Hedges a Maer Arfon.

Pêl-droed

Dewiswyd Jonathan Davies i chwarae i dim Ysgolion Gwynedd dan 14 oed yn erbyn Ysgolion Clwyd. Fe enillodd Gwynedd 3-1, a Jonathan sgoriodd un o'r goliau. Mae'n rhaid ei fod wedi gwneud argraff dda gan ei fod wedi ei ddewis yn aelod o garfan pêl-droed gogledd Cymru i fynd i Aberystwyth yn ystod yr haf am hyfforddiant hefo'r goreuon o Gymru gyfan.

Gweithgareddau Awyr Agored

Fe aeth 18 o ddisgyblion y chweched, ynghyd â nifer o ddisgyblion y chweched dosbarth Ysgol Syr Hugh Owen ar gwrs gweithgareddau awyr agored i Ddyffryn Ogwen yn ystod y mis. Fe gafodd y disgyblion brofiad o wersylla, cyfeiriadau cyffredin a chyfeiriadau yn y nos hefyd ar y mynyddoedd.